

Rhif ymchwil cymdeithasol: 53/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2026

Gwerthusiad o ddiwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-312-2

Gwerthusiad o ddiwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru

Awduron: Kerry KilBride, Geof Andrews, Sophie Wheeler, Lili Thomas, Iestyn Allen, Nell Butler / Miller Research (UK) Ltd.

Adroddiad Ymchwil Llawn: KilBride, K; Andrews, G; Wheeler, S; Thomas, L; Allen, I; Butler, N. (2026). Gwerthusiad o ddiwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 53/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddiwrnodau-hms-hyfforddiant-mewn-swydd-yng-nghymru>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost fîm neu gangen: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Rhestr ffigurau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad.....	5
1.1. Cyd-destun y polisi	5
1.2. Nodau a chwestiynau ymchwil.....	6
1.3. Strwythur yr adroddiad.....	7
2. Methodoleg	8
2.1. Dyluniad Ymchwil	8
2.2. Cyfweiliadau a grwpiau ffocws	8
2.3. Arolwg.....	10
2.4. Astudiaethau achos	10
2.5. Dadansoddiad	11
2.6. Cyfyngiadau.....	11
3. Canfyddiadau	13
3.1. Defnyddio a chynllunio diwrnodau HMS	13
3.2. Aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol a nodau polisi.....	17
3.3. Cynhwysiant a mynediad i bob grŵp staff.....	20
3.4. Cydweithio a gweithio mewn clwstwr.....	21
3.5. Llywodraethu a chyfathrebu.....	23
3.6. Effaith ar ymarferwyr ac ysgolion.....	25
3.7. Effaith ar ddysgwyr a chanlyniadau ehangach	27
3.8. Barn ar yr angen am y chweched diwrnod HMS.....	29
3.9. Hwyluswyr a rhwystrau	31
3.10. Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru	34
4. Casgliadau	37
5. Argymhellion	43
Atodiad A: Model Rhesymeg HMS	45
Atodiad B: Cwestiynau ymchwil.....	46
Atodiad C: Defnydd o'r diwrnod HMS – astudiaethau achos ysgolion.....	48

Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1 Wrth gynllunio HMS ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2025 i 2026, pa rai o'r blaenoriaethau canlynol fydd yn cael sylw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.....	14
Ffigur 3.8a A allech chi nodi i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Mae'r chweched diwrnod HMS ychwanegol yn galluogi gwell cefnogaeth i ddysgu proffesiynol.....	29
Ffigur 3.8b A allech chi nodi i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Rwy'n cefnogi'r ddarpariaeth barhaus o'r chweched diwrnod ychwanegol o HMS..	30

Geirfa

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol.

MDaPh

Maes Dysgu a Phrofiad o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

ASCL

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Cwricwlwm i Gymru

Y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgwyr 3–16 oed yng Nghymru.

Cymraeg 2050

Strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg erbyn 2050

EpiPen

Chwistrellydd adrenalin awtomatig a ddefnyddir i drin adweithiau alergaidd difrifol (anaffylaxis)

CDU

Cynllun datblygu unigol, cynllun statudol sy'n amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY

HMS

Hyfforddiant Mewn Swydd; diwrnodau statudol heb ddisgyblion ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol staff

CGP

Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid

DCDP

Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu proffesiynol effeithiol

NASUWT

Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri Undeb Athrawon Benywaidd

NEU

Undeb Addysg Cenedlaethol

PECS

System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau, dull cyfathrebu gweledol sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion cyfathrebu

PREVENT

Y Ddyletswydd Prevent. Dyletswydd ddiogelu statudol dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion yng Nghymru roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth

UCD

Uned Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol brif ffrwd

CDY

Cynllun Datblygu Ysgol sy'n amlinellu blaenoriaethau a chamau gweithredu gwella ysgol

SLO

Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, model sy'n hyrwyddo dysgu a gwelliant parhaus ar draws ysgolion

UDA

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

CA

Cymhorthydd Addysgu.

Team Teach

Rhaglen hyfforddi i gefnogi gyda rheoli ymddygiad cadarnhaol ac ymyrraeth gorfforol ddiogel

ToC

Damcaniaeth Newid

UCAC

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

CBAC

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, y corff dyfarnu cymwysterau yng Nghymru

1. Cyflwyniad

1.1. Cyd-destun y polisi

Mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yn elfen graidd o oriau gwaith statudol athrawon yng Nghymru ac yn darparu amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol. Drwy HMS, disgwylir i ysgolion gefnogi ymarferwyr i wella eu sgiliau a'u harfer, cryfhau gallu ar y cyd, a gwella datblygiad ysgolion a chanlyniadau i ddysgwyr. Mae yna 5 diwrnod o HMS ar gyfer penaethiaid ac athrawon, ac maen nhw'n cael eu pennu'n genedlaethol bob blwyddyn academaidd drwy'r [Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol \(Cymru\)](#) (DTAAY(C)). Nid yw trefniadau tebyg ar gyfer staff cymorth ac athrawon cyflenwi wedi'u gosod fel hyn ac yn hytrach maent yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol unigol. Mae gan ysgolion hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n trefnu ac yn defnyddio amser HMS, gan gynnwys drwy ddefnyddio diwrnodau cau llawn pan fydd ysgolion wedi cau i ddysgwyr, neu amser cyfatebol drwy sesiynau gwyll, sy'n dilyn diwrnod addysgu arferol.

Yn 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru chweched diwrnod HMS ychwanegol, am 3 blynedd i ddechrau, i roi mwy o amser wedi'i neilltuo i ysgolion ac ymarferwyr i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Ar ôl cyflwyno'r diwrnod HMS ychwanegol hwn, profodd y system addysg aflonyddwch sylweddol oherwydd pandemig COVID-19, a roddodd bwysau ar ysgolion a'r gweithlu, effeithio ar gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, a newid cyflymder a natur y gwaith o weithredu diwygiad. Parhawyd y chweched diwrnod o ganlyniad hyd at y flwyddyn academaidd 2024 i 2025 ar ôl [ymgyngori ar ddiwrnodau HMS dysgu proffesiynol cenedlaethol ychwanegol](#).

Mae'r penderfyniad i barhau â'r chweched diwrnod yn adlewyrchu graddfa a chymhlethdod y diwygiadau parhaus o fewn y system addysg, gan gynnwys gweithredu system Cwricwlwm i Gymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn raddol. Mae Llywodraeth Cymru yn [darparu canllawiau sy'n annog](#) ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n cefnogi blaenoriaethau diwygio cenedlaethol wrth ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion ymateb i'r cyd-destun lleol.

Mae cyflwyno a defnyddio diwrnodau HMS yn amrywio ledled Cymru. Mae ysgolion yn defnyddio amser HMS at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys cynllunio a datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol, a gweithgarwch gwella ysgolion ehangach. Mae'n bwysig nodi, er y bydd rhai awdurdodau lleol yn gofyn am [yr hyfforddiant hwn](#) ar gyfer ysgolion, nid yw Llywodraeth Cymru yn mynnu bod unrhyw gynnwys penodol yn cael ei gynnwys yn HMS ar hyn o bryd. Mae ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) yn aml yn wynebu gofynion hyfforddi ychwanegol sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth. Mae mynediad at HMS ar gyfer gwahanol grwpiau staff, yn enwedig cymorthyddion addysgu (CA) a staff cymorth eraill, hefyd yn wahanol ac yn cael ei ddylanwadu gan drefniadau cytundebol ac arferion lleol.

Mae [ymgyngoriad](#) Llywodraeth Cymru yn 2022, ac ymchwil arall ([e.e. Astudiaeth dysgu proffesiynol athrawon: Adroddiad diagnostig ar gyfer Cymru](#)), wedi dangos cefnogaeth eang

i HMS, gan gynnwys y diwrnod ychwanegol. Fodd bynnag, cododd rhanddeiliaid bryderon am yr amrywiad yn y ffordd y defnyddir amser HMS, mynediad anghyfartal i wahanol grwpiau staff gyda golwg benodol ar gefnogi staff, ac [effaith diwrnodau cau ysgolion ar deuluoedd](#). Yn ogystal, bu tystiolaeth genedlaethol ddiweddar gyfyngedig ar sut mae diwrnodau HMS presennol ac ychwanegol yn cael eu cynllunio a'u defnyddio yn ymarferol, a pha mor effeithiol y maent yn cefnogi datblygiad ymarferwyr ac ysgolion ac yn cyfrannu at ganlyniadau dysgwyr. Mae'r bylchau hyn mewn tystiolaeth yn arbennig o bwysig o ystyried graddfa'r diwygiadau addysg presennol yng Nghymru a rôl ganolog dysgu proffesiynol wrth gyflawni diwygiadau yn llwyddiannus. Comisiynwyd yr ymchwiliad hwn gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth, gyda ffocws penodol ar y chweched diwrnod HMS.

Mae'r gwaith ymchwiliad wedi'i seilio ar gyd-destun polisi ehangach Cymru. Mae'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau a nodir yn [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#), sy'n pwysleisio addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd dda gyda chefnogaeth dysgu proffesiynol gydol gyrfa. Mae hefyd yn adlewyrchu egwyddorion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (DCoDdP), sy'n hyrwyddo dysgu proffesiynol sy'n gydweithredol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn fyfyrionol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol a system. Mae'r ymchwiliad yn cael ei lywio ymhellach gan fodel Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, tegwch mewn addysg a Chymraeg 2050.

1.2. Nodau a chwestiynau ymchwiliad

Pwrpas cyffredinol y gwaith ymchwiliad hwn oedd darparu tystiolaeth gadarn a chyfredol ar y defnydd o HMS i lywio polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth ac i gefnogi penderfyniadau ynghylch rôl, strwythur a gwerth diwrnodau HMS yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn benodol, bwriad yr ymchwiliad yw:

- deall sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio yn ymarferol, gan gynnwys sut maent yn cael eu hamserlennu a'u dosbarthu, yr ystod o gynnwys dysgu proffesiynol a gwmpesir, y prosesau y mae sesiynau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno drwyddynt, a rôl cydweithio o fewn ac ar draws ysgolion
- ystyried canfyddiadau o effeithiolrwydd diwrnodau HMS wrth gefnogi ymarferwyr a dysgwyr, gan gynnwys barn ar werth, rôl ac effaith y chweched diwrnod HMS ychwanegol
- nodi ffactorau sy'n hwyluso neu'n gweithredu fel rhwystrau rhag defnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS, ac i gael dealltwriaeth o sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Datblygwyd set o gwestiynau ymchwiliad manwl i gefnogi'r nodau hyn ac i ddarparu fframwaith strwythuredig ar gyfer y dadansoddiad. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

1.3. Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae adran 2 yn nodi'r dulliau a ddefnyddir yn yr ymchwil hwn
- Mae adran 3 yn ymdrin â chanfyddiadau'r ymchwil
- Mae adran 4 yn darparu casgliadau'r ymchwil
- Mae adran 5 yn nodi'r argymhellion o'r ymchwil.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r dull methodolegol a ddefnyddir i werthuso'r defnydd o HMS mewn ysgolion yng Nghymru. Cafodd y dull ei lywio gan y gofynion ym manyleb ymchwil Llywodraeth Cymru a'r amcanion ymchwil, ac roedd yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, Llyfr Magenta a Llyfr Aqua.

2.1. Dyluniad Ymchwil

Dechreuodd y gwaith ymchwil drwy ddatblygu Damcaniaeth Newid (DN). Cafodd hyn ei lywio drwy adolygiad cychwynnol o ddogfennau pwysig, gan gynnwys canllawiau cenedlaethol ar ddiwrnodau HMS a dysgu proffesiynol, cyhoeddiadau Estyn, ac ymchwil gynharach i HMS a dysgu proffesiynol yng Nghymru. Cafodd y DN ei lywio hefyd gan gyfres o chwe chyweliad cwmpasu a gynhaliwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid cenedlaethol eraill ym mis Gorffennaf ac Awst 2025.

Mae'r DN yn nodi sut y bwriedir i amser HMS wella dysgu proffesiynol, cryfhau gweithio mewn ysgolion a chlwestwr, ac yn y pen draw cefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr. Roedd yn tynnu sylw at y mecanweithiau tybiedig o newid sy'n gysylltiedig â'r diwrnodau HMS safonol a'r chweched diwrnod ychwanegol a gyflwynwyd o 2019. Mae'r DN yn llywio'r dyluniad ymchwil, y strategaeth samplu a datblygu canllawiau pwnc ar gyfer yr holl waith maes. Cafodd ei ddiwygio ar draws 2 weithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac fe'i darluniwyd fel model rhesymeg (wedi'i gynnwys yn Atodiad A)

Rhoddodd dyluniad yr ymchwil bwyslais ar ddulliau ansoddol er mwyn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae diwrnodau HMS yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno a'u defnyddio yn ymarferol, a sut maent yn cael eu profi gan ymarferwyr ar draws gwahanol gyd-destunau ysgol.

Cynhwyswyd arolwg ymarferwyr cenedlaethol i ategu'r gwaith ansoddol hwn drwy ehangu'r sylfaen dystiolaeth a chasglu ystod ehangach o safbwyntiau ar draws rolau a lleoliadau. Bwriad yr arolwg oedd cefnogi triongliad â chanfyddiadau ansoddol ac i nodi patrymau mewn profiad a defnydd o HMS.

2.2. Cyfweliadau a grwpiau ffocws

Strategaeth samplu

Cynlluniwyd y samplu ar gyfer agwedd ansoddol ar yr astudiaeth i sicrhau cynrychiolaeth ledled Cymru ar gyfer cyfweliadau ag uwch-arweinwyr. Datblygwyd fframwaith samplu cychwynnol i gwmpasu amrywiadau yn y cyfnod ysgol gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd canol/pob oed, ac ysgolion arbennig, cyfrwng iaith (Saesneg, Cymraeg a dwyieithog), rhanbarth a chyd-destun economaidd-gymdeithasol.

Roedd y gwaith recriwtio ar gyfer y cyfweliadau ag uwch-arweinwyr i ddechrau yn dibynnu ar fanylion cyswllt ysgol sydd ar gael i'r cyhoedd. Cysylltwyd â chyfanswm o 711 o ysgolion. Er mwyn ehangu cyfranogiad, hyrwyddwyd y cyfle i gymryd rhan hefyd drwy Dysg (cylchlythyr e-bost addysg a hyfforddiant swyddogol Llywodraeth Cymru). Wrth i'r gwaith

maes fynd rhagddo, addaswyd y ffrâm samplu i fynd i'r afael â bylchau lle'r oedd ymatebion yn is na'r disgwyl.

Mewn cyferbyniad, nid oedd ymgysylltu ag athrawon a CD yn dilyn fframwaith samplu ffurfiol. Cynhwyswyd y cyfranogwyr hyn i ddarparu safbwyntiau ychwanegol ar y defnydd a'r profiad o HMS. Cafodd athrawon a CD eu recriwtio'n bennaf drwy uwch-arweinwyr a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn yr ymchwil.

Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi'u cyfuno yn y dadansoddiad ar gyfer yr ymchwil hwn, er gwaethaf y ffaith na fydd pob dysgwr mewn lleoliadau dwyieithog yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r dull a ddefnyddir ar gyfer data cyfrifiad ysgolion.

Gweithgareddau gwaith maes

Cynhaliwyd cyfweiliadau a grwpiau ffocws gydag arweinwyr ysgolion, athrawon, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg cenedlaethol ac undebau gweithlu. Datblygwyd canllawiau pwnc yn unol â'r fframwaith ymchwil ac roeddent yn ymdrin â themâu yn ymwneud â chynllunio, cyflwyno ac effaith diwrnodau HMS, gan gynnwys y chweched diwrnod HMS ychwanegol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau a grwpiau ffocws o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2025, gyda phob sesiwn yn para oddeutu awr. Mae dadansoddiad manwl o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn y cam hwn o'r ymchwil wedi'i nodi isod.

- 34 o gyfweiliadau ag uwch dîm arweinyddiaeth (UDA), yn cynrychioli:
 - 7 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
 - 2 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
 - 3 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg
 - 6 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg
 - 4 ysgol ganol/pob oed cyfrwng Saesneg
 - 2 ysgol ganol/pob oed cyfrwng Cymraeg
 - 10 ysgol arbennig
- 5 athro wedi cymryd rhan drwy gyfweiliadau grŵp bach neu un-i-un
- 10 cyfweiliad â Chyfarwyddwyr Addysg neu staff cyfatebol mewn awdurdodau lleol ar wahân.
- 8 cyfweiliad â sefydliadau rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg ac undebau gweithlu yn cynnwys y canlynol:
 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
 - Undeb Llafur Cymunedol

- Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri Undeb Athrawon Benywaidd (NASUWT)
- Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
- UNSAIN Cymru
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

2.3. Arolwg

Yn ogystal â'r gwaith maes ansoddol, rhannwyd arolwg ar y platfform ar-lein Microsoft Forms gydag uwch-arweinwyr, athrawon, CA a'r gweithlu addysg ehangach i gasglu tystiolaeth ehangach ar brofiadau diwrnodau HMS ledled Cymru. Nid oedd yr arolwg yn defnyddio dull samplu systematig neu debygol. Cynhaliwyd y dosbarthiad drwy Dysg, e-gylchlythyr swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Roedd y dull hwn yn golygu y gallai'r arolwg gyrraedd yr holl weithwyr addysg proffesiynol sydd wedi tanysgrifio i'r cylchlythyr. Fodd bynnag, gan fod ymatebion wedi'u hunan-ddewis, efallai nad yw'r sampl a ddeilliodd o hyn yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfanswm o 26 cwestiwn (20 caeedig a 6 agored) ac fe'i ffrydiwyd fel bod ymatebwyr yn cael y cwestiynau sy'n berthnasol i'w rôl yn unig. Datblygwyd cwestiynau arolwg i gyd-fynd â'r nodau ymchwil a'r fframwaith ymchwil ac i alluogi triongli â chanfyddiadau o'r gwaith maes ansoddol.

Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 561 o ymatebion, gan gynnwys:

- 504 o ymatebion Saesneg
- 57 o ymatebion Cymraeg

Bu i'r arolwg ehangu sylw ac roedd yn cynnwys ymatebion gan ystod o ymarferwyr:

- athrawon – 255 (45.7%)
- penaethiaid / uwch-arweinwyr – 176 (31.5%)
- CA – 78 (14%)
- ymarferwyr addysg ehangach¹ – 49 (8.8%)

Yn ogystal, ni nododd 3 ymatebydd arall eu rôl.

2.4. Astudiaethau achos

Yn ogystal â'r prif ddulliau a drafodwyd uchod, cynhaliwyd astudiaethau achos i gasglu data ansoddol cyfoethog ar y defnydd o ddiwrnodau HMS. Roedd y sampl astudiaeth achos yn cynnwys 6 ysgol, a ddewiswyd i adlewyrchu ystod o gyfnodau a mathau o ysgolion (gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig), cyfrwng iaith, daearyddiaeth, a lefelau

¹ Gan gynnwys staff gweinyddol a gweithwyr proffesiynol eraill nad ydynt yn addysgu.

amddifadedd. Mae defnyddio pro forma safonol yn sicrhau cysondeb ar draws astudiaethau achos gan ganiatáu i arweinwyr ddarparu ymatebion manwl, testun agored wedi'u seilio ar gyd-destun eu hysgol eu hunain. Dadansoddwyd canfyddiadau'r astudiaeth achos yn thematig ac fe'u cyflwynir yn Atodiad C.

2.5. Dadansoddiad

Mabwysiadwyd dull dadansoddi thematig ar gyfer data cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Cafodd codio ei lywio gan y cwestiynau ymchwil a nodir yn y fanyleb ymchwil wreiddiol ac a grynhowyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn. Datblygwyd strwythur codio cychwynnol a'i gymhwyso i drawsgrifiadau cyfweiliadau a grwpiau ffocws cynnar, gyda dau ymchwilydd yn codio sampl o drawsgrifiadau yn annibynnol i gefnogi cysondeb.

Yn dilyn y cyfnod codio hwn, roedd y dadansoddi yn cynnwys cymharu themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws grwpiau rhanddeiliaid, rhanbarthau, mathau o ysgolion a chyfryngau iaith. Archwiliwyd y themâu hyn hefyd drwy lens nodweddion ysgolion, megis cyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim, gwledigrwydd, a lefel yr achosion o ADY, er bod maint y dadansoddiad wedi'i gyfyngu gan y maint sampl cymharol fach.

Dadansoddwyd ymatebion i gwestiynau caeedig ar yr arolwg ar-lein yn Excel, gan ddefnyddio tablau colynnu, lle bo hynny'n berthnasol. Dadansoddwyd data testunol a gasglwyd drwy gwestiynau agored yr arolwg yn ddisgrifiadol i nodi patrymau y gellid eu triogli gyda themâu ansoddol neu gymhwyso themâu ansoddol a nodwyd yn y rownd gyntaf o ddadansoddi. Roedd prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys adolygiad gan gymheiriaid, trafodaeth tîm o ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a gwirio tystiolaeth systematig sy'n sail i gasgliadau.

2.6. Cyfyngiadau

Er bod yr ymchwil wedi cynhyrchu tystiolaeth helaeth ac ystyrlon, dylid cydnabod sawl cyfyngiad. Ni chyrhaeddwyd targed gwreiddiol o 55 o gyfweiliadau ag Uwch Dimau Arweinyddiaeth (cyfwelwyd cyfanswm o 34, sy'n cynrychioli 62% o'r targed gwreiddiol), ac mae'r tangynrychiolaeth o rai ardaloedd awdurdodau lleol (ni chymerodd unrhyw ysgolion yn Nhorfaen, Merthyr Tudful, Sir y Fflint, Ceredigion ran) yn golygu nad oedd yr ymchwil wedi cyflawni sylw daearyddol llawn.

Roedd ymgysylltu ag athrawon a CA drwy ddulliau ansoddol hefyd yn gyfyngedig, gyda dim ond 5 athro yn ymgysylltu drwy gyfweiliadau grŵp bach neu un-i-un, ac ni chafodd unrhyw CA eu cyfweld. Fodd bynnag, derbyniodd yr arolwg 225 o ymatebion gan athrawon a 78 o ymatebion gan y CA, a helpodd i liniaru'r diffyg mewn ymgysylltu ansoddol â'r grwpiau hyn. Ar ben hynny, mae'r ffaith bod lefelau eithaf uchel o gytundeb ymhlith cyfweleion ac ymatebwyr yr arolwg ar draws mathau o ysgolion, lleoliad daearyddol, a newidynnau eraill, yn awgrymu bod dirlawnder data wedi'i gyflawni ac efallai na fyddai gwaith maes ychwanegol wedi cynhyrchu mewnwelediadau sylweddol newydd.

Gan fod cyfranogiad yn wirfoddol, gall rhagfarn hunan-ddethol fod yn ffactor, yn enwedig o fewn yr arolwg. Roedd yr ymchwil hefyd yn wynebu cyfyngiadau oherwydd absenoldeb data

cenedlaethol ar sut mae HMS yn cael ei ddefnyddio, sy'n golygu bod canfyddiadau'n dibynnu ar hunan adroddiadau o arferion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r cyfuniad o dystiolaeth ansoddol a meintiol, a gasglwyd ar draws ystod eang o leoliadau a rolau, yn darparu sylfaen gref a chredadwy i ddeall defnydd cyfredol ac effaith ganfyddedig HMS yng Nghymru.

3. Canfyddiadau

3.1. Defnyddio a chynllunio diwrnodau HMS

Roedd y gwaith ymchwil yn archwilio sut oedd ysgolion yn amserlennu eu diwrnodau HMS. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil (79% o ymatebwyr yr arolwg) yn defnyddio cyfuniad o ddiwrnodau HMS llawn a sesiynau gwyll, sy'n fyrrach na diwrnodau llawn, yn digwydd ar ôl y diwrnod ysgol, ac yn darparu tua'r un faint o amser â diwrnod HMS llawn ond wedi'i gyflwyno dros sawl sesiwn. Mae tystiolaeth o ymatebion yr arolwg hefyd yn awgrymu bod un o bob chwech (16%) o ysgolion yn cyflawni eu holl hawliau fel diwrnodau llawn gyda dim ond 2% yn dweud eu bod yn defnyddio sesiynau gwyll yn unig.

Roedd ysgolion yn fwyaf cyffredin yn defnyddio diwrnodau llawn lle roedd cydlyniant ysgol gyfan a chynllunio parhaus yn flaenoriaethau. Adroddodd yr arweinwyr fod diwrnodau pwrpasol yn cefnogi cydweithio ar draws adrannau ac yn galluogi cynllunio dyfnach sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio cymwysterau. Gwelwyd diwrnodau llawn hefyd yn fwy effeithiol ar gyfer gweithgarwch clwstwr ac ar gyfer gwaith sy'n gofyn am amser di-dor. Nododd uwch-arweinwyr fod staff yn gyffredinol yn ffafrio diwrnodau llawn a'u bod yn osgoi'r blinder sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ar ôl diwrnod llawn o addysgu. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i'r pum diwrnod HMS craidd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, i'r chweched diwrnod ychwanegol, a oedd yn aml wedi'i drefnu fel diwrnod llawn i gadw amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a diwygio.


Disgrifiwyd sesiynau gwyll fel arfer fel ymateb pragmatig i bwysau cystadleuol. Roedd ysgolion yn eu defnyddio i gynyddu hyblygrwydd, dosbarthu dysgu proffesiynol ar draws y flwyddyn, ac osgoi amserlennu HMS ar ddiwedd tymor yr haf, a oedd yn aml yn cael ei ystyried yn llai cynhyrchiol. Defnyddiwyd sesiynau gwyll hefyd i ddarparu ar gyfer cytundebau rhan amser, lleihau pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â thalu oriau ychwanegol ar gyfer staff cymorth, a chreu lle o amgylch digwyddiadau wedi'u trefnu'n allanol fel sesiynau diwygio cymwysterau CBAC. Cyflwynodd nifer fach o ysgolion y chweched diwrnod HMS drwy sesiynau gwyll am resymau tebyg, yn enwedig lle'r oedd llesiant, patrymau staffio neu amserlennu adweithiol yn ystyriaethau.

Dywedodd y cyfweleion fod ysgolion yn aml yn gosod diwrnodau cyntaf ac olaf y flwyddyn ysgol yn eu calendr HMS, er bod y 'diwrnod' olaf yn aml ar ffurf sawl sesiwn gwyll a gynhelir cyn diwedd y tymor. Dywedodd staff awdurdodau lleol fod y defnydd o ddiwrnodau HMS yn amrywio yn ôl ysgol, ac esboniodd staff ar draws pob math o leoliadau fod amser HMS yn aml wedi'i wasgaru ar draws y flwyddyn. Dywedodd ymarferwyr fod hyn yn cefnogi datblygiad parhaus drwy gydol y flwyddyn academiaidd a'i fod yn sicrhau bod pob tymor yn cynnwys darpariaeth HMS bwrpasol.

Mae Ffigur 3.1. yn dangos yr ymatebion a roddodd ymarferwyr sy'n gyfrifol am gynllunio HMS pan ofynnwyd iddynt pa gynnwys oedd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2025 i 2026. Cyfeiriwyd at ddylunio cwricwlwm a MDaPh (Meysydd Dysgu a Phrofiad) amlaf (88% o'r ymatebion), ac yna diogelu (76%), a chynhwysiant ADY, CDUau

(cynlluniau datblygu unigol), a/neu weithio rhyng-asiantaethol (mewn perthynas â chefnogi dysgwyr ag ADY) (70%). Crybwyllwyd cydweithio mewn clwstwr a thraws-ysgol (67%) ac ymddygiad (52%) hefyd mewn dros hanner yr ymatebion. Yn ystod cyfweiliadau, nododd uwch arweinwyr mewn lleoliadau uwchradd hefyd fod amser HMS wedi cael ei ddefnyddio fwyfwy i baratoi ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd.

Ffigur 3.1 Wrth gynllunio HMS ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2025 i 2026, pa rai o'r blaenoriaethau canlynol fydd yn cael sylw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol



Ffynhonnell Arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol n=195

Disgrifiad o Ffigur 3.1: Siart bar sy'n cyflwyno'r blaenoriaethau y mae uwch-arweinwyr yn dweud y bydd HMS yn mynd i'r afael â nhw ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2025 i 2026. Mae'n dangos mai dyluniad y cwricwlwm a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yw'r ymateb mwyaf cyffredin ac yna diogelu. Dangosir ystod o flaenoriaethau llai cyffredin eraill hefyd.

Esboniodd arweinwyr ysgolion a gafodd eu cyfwrdd fod y chweched diwrnod HMS ychwanegol fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu cynnwys tebyg i'r hyn a gwmpesir yn y prif ddyraniad HMS, ond yn aml gyda phwyslais cryfach ar flaenoriaethau diwygio cenedlaethol. Fe wnaethant ddisgrifio defnyddio'r chweched diwrnod i symud ymlaen â gwaith dylunio cwricwlwm, ymgymryd â hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag ADY, paratoi ar gyfer diwygiadau cymwysterau, neu gwblhau diweddariadau diogelu a chydymffurfio. Mewn rhai achosion, mae'r chweched diwrnod yn darparu amser hanfodol wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau cynllunio ysgol gyfan neu glwstwr na ellir eu darparu yn hawdd yn ystod y tymor arferol.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gorfodi cynnwys penodol HMS, disgrifiodd arweinwyr ysgolion rywfaif o hyfforddiant fel hyfforddiant gorfodol oherwydd ei fod yn deillio o ddyletswyddau statudol ehangach, gofynion awdurdodau lleol, rhwymedigaethau iechyd a diogelwch neu safonau proffesiynol. Mae hyn yn creu canfyddiad nad yw'n rhywbeth i'w drafod a bod yn rhaid ei dderbyn. Adroddodd uwch-arweinwyr a gyfwelwyd yn aml eu bod yn neilltuo cryn dipyn o amser bob blwyddyn i gwmpasu'r hyn a ystyrir yn hyfforddiant gorfodol, gyda'r mwyafrif yn dweud ei fod yn cymryd o leiaf 6 awr neu ddiwrnod HMS llawn. Mewn rhai achosion, dyrannodd ysgolion 2 ddiwrnod HMS llawn i gynnwys gorfodol, yn aml oherwydd graddfa'r hyfforddiant gofynnol mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, diogelu, rheoli ymddygiad, ymyrraeth gorfforol, PREVENT, defnyddio EpiPen a gweithdrefnau meddygol eraill.

Disgrifiodd uwch-arweinwyr mewn ysgolion arbennig fod eu HMS yn cynnwys a gofynion ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gwmpesir mewn lleoliadau prif ffrwd a bod hyn yn gofyn am fwy o'u hamser HMS pwrpasol. Roedd yn ofynnol i staff ysgolion arbennig gymryd rhan yn yr hyfforddiant ychwanegol angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ADY. Roedd hyfforddiant o'r fath yn cynnwys sesiynau ar godi a chario (codi pobl), [System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau](#) (PECS), cymorth ymddygiadol cadarnhaol gyda hyfforddiant [Team Teach](#) i fynd i'r afael â hyn (gan gynnwys ymyrraeth gorfforol gyfyngol, RPI), a chefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion corfforol cymhleth.

Yn ogystal, gofynnodd yr ymchwil am sut mae diwrnodau HMS yn cael eu cynllunio. Mae Cynlluniau Datblygu Ysgolion (CDY) yn nodi anghenion a blaenoriaethau cyffredinol ysgol, gan gynnwys anghenion presenoldeb, diogelu, llythrennedd a rhifedd, a meysydd eraill y mae angen sylw. Adroddwyd yn gyffredin eu bod yn cael eu defnyddio i benderfynu pa hyfforddiant i'w gynnwys mewn sesiynau HMS yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol unigol, a hefyd i sicrhau bod y cynnwys yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae rhai ysgolion yn adrodd y gall fod yn anodd rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau lefel ysgol, fodd bynnag, o ystyried maint yr hyn sy'n cael ei ystyried fel hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid ei gwmpasu yn y dyraniad HMS sydd ar gael. Yn ystod cyfweiliadau, nododd arweinwyr ysgol nad ydynt yn trin y chweched diwrnod yn wahanol i weddill eu dyraniad HMS ac felly hefyd fel arfer yn ei alinio â blaenoriaethau CDY presennol a'r disgwyliadau cenedlaethol ehangach ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mae rhai uwch-arweinwyr yn defnyddio adborth staff o ddiwrnodau HMS blaenorol i nodi cryfderau canfyddedig a bylchau mewn gwybodaeth ac i benderfynu pa bynciau a hyfforddiant i'w cynnwys mewn sesiynau HMS yn y dyfodol. Ymdrinnir â bylchau mewn dysgu a nodwyd drwy HMS, adolygiadau datblygiad proffesiynol, neu brosesau eraill mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar raddfa a natur y bwlch. Lle mae bylchau yn effeithio ar grŵp mwy o staff, mae ysgolion yn defnyddio amser HMS i ailymweld neu atgyfnerthu'r meysydd hyn, gan ddarparu ymateb ysgol gyfan neu grŵp. Ar gyfer bylchau sy'n effeithio ar grwpiau llai neu ymarferwyr unigol, mae ysgolion yn cynnig dull mwy targedig drwy sesiynau dysgu proffesiynol rheolaidd, yn hytrach na diwrnodau HMS.

Nododd uwch-arweinwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, yn ogystal â mynd i'r afael â bylchau a blaenoriaethau penodol i ysgolion, eu bod hefyd yn defnyddio diwrnodau HMS i gwmpasu diweddariadau ar anghenion iechyd dysgwyr, unrhyw

hyfforddiant penodol (e.e.: hyfforddiant ynghylch defnyddio anadlwyr) neu addasiadau a gwmpesir yn CDU dysgwyr ag ADY, yn ogystal ag anghenion iechyd ehangach. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sesiynau sy'n helpu staff i gyflawni eu rolau yn ddiogel ac yn hyderus.

Er nad oedd ysgolion yn cyfeirio'n uniongyrchol at y [Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol](#), mae llawer o'r arferion dysgu proffesiynol a ddisgrifir yn y cyfweiliadau yn cydfynd â'i egwyddorion dylunio. Yn yr arolwg, er enghraifft, dywedodd 82% o'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio HMS eu bod yn defnyddio arbenigedd staff mewnol i arwain sesiynau, sy'n adlewyrchu disgwyliad y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol y dylai gweithwyr proffesiynol ddysgu oddi wrth ei gilydd a thynnu ar wybodaeth fewnol. Mae'r ffaith bod llawer o ysgolion yn adeiladu cynnwys HMS o'u CDY, ac adborth arall, yn adlewyrchu gofyniad y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol y dylai dysgu proffesiynol gysylltu ag anghenion a nodwyd. Mae rhai ysgolion yn darparu amser i fyfrio drwy waith adrannol, modelau hyfforddi, neu sesiynau dilynol wythnosol, sy'n cefnogi pwyslais y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gymhwyso dysgu yn ymarferol. Mae sesiynau clwstwr hefyd yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i staff ddysgu gyda chydweithwyr ar draws cyfnodau (h.y.: cynradd, uwchradd ac ati). Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr ar draws lleoliadau fod pwysau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r hyn sy'n cael ei ystyried fel hyfforddiant gorfodol, gofynion diogelu newydd, a newidiadau i gymwysterau, yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer dysgu seiliedig ar ymholiadau, sy'n golygu na all eu rhaglenni HMS bob amser adlewyrchu egwyddorion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn llawn.

Mae'r ymchwil hefyd yn ystyried rôl awdurdodau lleol yn y ddarpariaeth HMS. Dywedodd nifer fach o ymarferwyr fod gan eu hysgolion hyblygrwydd llawn dros amseru a chynnwys diwrnodau HMS, heb fawr o gyfranogiad awdurdod lleol neu ddim o gwbl. Esboniodd sawl arweinydd arall fod awdurdodau lleol yn darparu goruchwyliaeth, gan adolygu sut mae ysgolion yn bwriadu defnyddio eu hamser HMS a chynnig argymhellion o ran ei gynnwys. Yn yr achosion hyn, fodd bynnag, mae ysgolion yn cadw hyblygrwydd ynghylch sut maen nhw'n gosod eu diwrnodau HMS ac adroddodd rhai eu bod wedi gwrthod pynciau a awgrymwyd gan eu hawdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn ymyrryd dim ond pan nad yw hyfforddiant sy'n cael ei ystyried yn orfodol wedi'i gynnal, er enghraifft hyfforddiant diogelu.

Disgrifiodd rhai ymarferwyr fwy o berthynas gydweithredol agos rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Yn yr enghreifftiau hyn, mae awdurdodau lleol weithiau yn llywio amseriad diwrnodau HMS gan fod hyn yn caniatáu iddynt wirio gweithgaredd ar draws sawl ysgol yn haws. Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhannu eu blaenoriaethau gydag ysgolion ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys HMS. Dywedodd uwch-arweinwyr yn y lleoliadau hyn fod awdurdodau lleol yn eu helpu i nodi anghenion hyfforddi a lleoli adnoddau neu ddarparwyr allanol pan fydd bylchau yn ymddangos.

Ar y cyfan, roedd uwch-arweinwyr yn gweld cefnogaeth awdurdodau lleol yn ddefnyddiol, er bod rhai yn nodi tensiwn pan fydd blaenoriaethau ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylw ar yr un pryd.

3.2. Aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol a nodau polisi

Fel y dangosodd yr adran flaenorol, mae tystiolaeth ar draws lleoliadau yn dangos bod llawer o ysgolion yn ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth gynllunio diwrnodau HMS. Gan fod y rhan fwyaf o ysgolion yn dechrau eu cynllunio drwy edrych ar eu CDY, ac mae llawer o'r CDY yn ymgorffori materion Cwricwlwm i Gymru (CiG), ADY a thegwch, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn aml yn rhan o'r broses gynllunio yn ddiofyn. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae hyn yn digwydd yn amrywio rhwng mathau o leoliadau ac yn cael ei lunio gan ofynion cystadleuol fel gofynion diogelu, diweddariadau cymwysterau, a hyfforddiant meddygol neu ymddygiad mewn ysgolion arbennig.

Cwricwlwm i Gymru

Dangosodd ymatebion o'r arolwg fod 88% o'r ymatebwyr yn nodi dylunio cwricwlwm a'r MDaPh fel blaenoriaethau pwysig yn eu rhaglenni HMS. Adroddodd uwch-arweinwyr a gymerodd ran mewn cyfweiliadau yn gyson fod y CiG yn parhau i fod yn ffocws canolog dysgu proffesiynol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd sy'n paratoi ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd. Er enghraifft, disgrifiodd un arweinydd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddefnyddio diwrnod HMS ym mis Medi i ddatblygu strategaethau cwestiynu a meddwl dyfnach, gan gysylltu hyn yn benodol â'r CiG a'i bwyslais ar annibyniaeth dysgwyr. Adroddodd ysgol uwchradd arall fod gweithgaredd diweddar HMS ar lythrennedd, cwestiynu myfyriol a gwaith grŵp yn rhan o'u gwaith parhaus i gryfhau darpariaeth y CiG. Wrth sôn yn fwy penodol am y cymwysterau TGAU newydd, nododd uwch-arweinydd:

"Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn brif flaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan staff amser i ystyried y manylebau newydd a dechrau paratoi ar gyfer y rheini."

Cydnabuwyd maint pwyslais ysgolion ar y CiG hefyd gan awdurdodau lleol, gydag un a gafodd ei gyfweld yn dweud:

"Mae'r [Cwricwlwm i Gymru] wedi cael sylw parhaus ers ei gyhoeddi ... mae ysgolion yn buddsoddi'n helaeth mewn cynllunio a chyflawni."

Mae cynllunio'r CiG hefyd yn ymddangos mewn ysgolion arbennig, ond mae cyfanswm graddfa gofynion ac anghenion hyfforddi eraill yn golygu, mewn rhai achosion, bod y gwaith hwn yn digwydd mewn blociau byr yn hytrach nag ar draws diwrnodau llawn. Disgrifiodd arweinwyr yn y lleoliadau hyn dro ar ôl tro rhestrau hir o hyfforddiant angenrheidiol, megis codi a chario, epilepsi, gweinyddu buccal, bwydo gastrostomi, rhaglenni cymorth ymddygiad, systemau cyfathrebu a gofal meddygol. Mae'r gofynion hyn yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer y CiG, er bod ysgolion yn dal i'w gynnwys lle bynnag y gallant.

Mae'r CiG hefyd yn ymddangos mewn cydweithio traws-ysgol, gyda sesiynau clwstwr yn cael eu defnyddio i wella cysondeb o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd. Dywedodd rhai arweinwyr fod angen mwy o amser arnynt i gynllunio sesiynau cydweithredol yn drylwyr ac adolygu arferion.

Diwygiadau ADY

Ar draws cyfweliadau ac ymatebion arolwg, adroddodd ysgolion fod diwygiadau ADY yn chwarae rhan sylweddol wrth lunio eu cynllunio HMS. Esboniodd arweinwyr mewn ysgolion prif ffrwd eu bod yn clustnodi amser HMS i ddatblygu dealltwriaeth staff o brosesau ADY newydd, gan gynnwys gwaith ar Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU), dulliau asesu, strategaethau cyfathrebu a chymorth ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anghenion ADY.

Disgrifiodd arweinwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg hefyd sut mae newidiadau ADY wedi dylanwadu ar eu dulliau o wahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth, systemau bugeiliol a chefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion sy'n dod i'r amlwg neu anghenion cymhleth. Mewn cyfweliad, awgrymodd un unigolyn o awdurdod lleol a oedd yn gwneud sylwadau ar ysgolion prif ffrwd fod y diwygiadau ADY wedi "... gyrru gweithgarwch hyfforddi sylweddol, yn enwedig ar gyfer staff cymorth a'r rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n agored i niwed."

Disgrifiodd ysgolion arbennig ddefnydd hyd yn oed yn fwy dwys o amser HMS ar gyfer blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag ADY, gan gynnwys cynllunio ymddygiad, dulliau rheoleiddio synhwyrdd a systemau cyfathrebu, sydd i gyd yn cyd-fynd yn agos â gofynion diwygio ADY. Nododd arweinwyr yn y lleoliadau hyn fod HMS yn hanfodol ar gyfer meithrin hyder staff i gefnogi dysgwyr gydag ADY.

Fodd bynnag, pwysleisiodd arweinwyr ysgolion prif ffrwd ac arbennig fod nifer yr hyn sy'n cael ei ystyried yn hyfforddiant gorfodol neu gydymffurfiaeth sy'n ofynnol bob blwyddyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i archwilio disgwyliadau ADY newydd yn fanwl. Nododd sawl ysgol hefyd y byddai canllawiau cenedlaethol cliriach ar anghenion ADY a disgwyliadau hyfforddiant yn cefnogi cynllunio mwy cydlynol.

Tegwch

Mae tegwch hefyd yn rhan o gynllunio HMS mewn sawl ysgol. Mewn cyfweliadau, disgrifiodd arweinwyr ysgol ddefnyddio amser HMS i ddatblygu dealltwriaeth staff o arferion sy'n ystyriol o drawma, dulliau ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb, llesiant, a themâu eraill sy'n gysylltiedig â thegwch. Dywedwyd bod diwrnodau HMS clwstwr yn cael eu defnyddio i ddod â siaradwyr allanol i mewn i fynd i'r afael â materion fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, anghenion addysgeg a chyfathrebu sy'n ystyriol o drawma, gan helpu staff i fyfyrion ar brofiadau ehangach dysgwyr a chryfhau cysondeb ar draws y clwstwr. Adroddodd ysgolion fod y sesiynau hyn yn galluogi athrawon a staff cymorth i adnabod rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr yn well ac addasu eu harferion yn unol â hynny.

Fodd bynnag, esboniodd arweinwyr hefyd fod sesiynau sy'n canolbwyntio ar degwch yn aml yn cystadlu â gofynion cwricwlwm brys, blaenoriaethau cenedlaethol eraill, a diweddariadau i ddiogelu gan adael amser cyfyngedig i staff wneud cais, ymarfer ac ymgorffori'r dulliau hyn. Nododd sawl ysgol, oherwydd bod amser HMS wedi'i ddyrannu'n dynn, fod blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thegwch weithiau yn cael eu cyflwyno mewn sesiynau byrrach nag y byddai'n well ganddynt, gan leihau cyfleoedd ar gyfer dilyniant neu fireinio yn ymarferol.

Cymraeg 2050

Mae'r graddau y mae diwrnodau HMS yn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn amrywio ar draws lleoliadau. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn weithgar wrth ddefnyddio HMS i wella llafaredd, ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth a datblygu dealltwriaeth a rennir o Gymreictod ar draws clwstwr. Disgrifiodd ysgolion weithdai, sesiynau datblygu iaith a siaradwyr allanol o sefydliadau Cymraeg sy'n helpu staff i fyfrio ar rôl iaith mewn dysgu. Esboniodd rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg fod annog dysgwyr i siarad Cymraeg yn hyderus wedi dod yn fwy heriol a bod amser HMS yn helpu staff i ailedrych ar ddisgwyliadau.

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fodd bynnag, mae'r defnydd o HMS ar gyfer Cymraeg 2050 yn fwy cyfyngedig. Mae rhai ysgolion yn ymdrin â defnydd o Gymraeg neu ymwybyddiaeth iaith drwy fodiwlau awdurdodau lleol, ond nododd arweinwyr nad yw'r sesiynau hyn bob amser yn teimlo'n addas i'w hanghenion. Awgrymodd ysgolion arbennig hefyd y gall Cymraeg 2050 fod yn anodd ei gymhwyso oherwydd gall dysgwyr gael trafferth gyda llythrennedd a chyfathrebu yn gyffredinol. Mae rhai yn ddi-eiriau neu'n defnyddio systemau cyfathrebu sydd wedi'u personoli iddyn nhw. Yn y lleoliadau hyn, mae gwaith Cymraeg yn canolbwyntio'n bennaf ar hunaniaeth ddiwylliannol yn hytrach na datblygiad ieithyddol.

Y chweched diwrnod a blaenoriaethau cenedlaethol

Mae barn am sut mae'r chweched diwrnod HMS yn cael ei ddefnyddio yn amrywio ar draws lleoliadau, ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dweud ei fod yn chwarae rôl wrth gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol. Bwriad y chweched diwrnod oedd darparu amser ysgol gyfan wedi'i warchod ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r CiG, diwygiadau ADY, tegwch a Chymraeg 2050. Fodd bynnag, adroddodd llawer o ysgolion uwchradd, ers blwyddyn academiaidd 2024 i 2025, fod y diwrnod wedi'i lunio i raddau helaeth gan ddigwyddiadau diwygio cymwysterau CBAC wedi'u trefnu'n allanol. Oherwydd bod y sesiynau hyn yn benodol i bwnc, dim ond rhai adrannau sy'n mynychu. Nododd sawl arweinydd, er bod y cynnwys a gwmpesir yn ymwneud â'r CiG a diwygio cymwysterau, nid yw'r fformat yn caniatáu cynllunio ysgol gyfan ehangach na dysgu proffesiynol strategol.

Mae ysgolion eraill yn defnyddio'r chweched diwrnod HMS yn fwy hyblyg. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn cynllunio gwaith clwstwr ar draws cyfnodau ar y CiG, camau dilyniant a phontio. Disgrifiodd rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg sut mae diwrnodau HMS clwstwr cyfan yn helpu staff i fyfrio ar gynllunio, llafaredd a hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg, sy'n cysylltu'n agos â Chymraeg 2050.

Mae ysgolion arbennig yn aml yn defnyddio'r chweched diwrnod fel yr unig le ar ôl i'r CiG ar ôl i lawer o'u hamser HMS gael ei gymryd gyda'r hyn a ystyrir yn ofynion hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â gofynion ieuchyd a diogelwch.

"Mae effaith gofynion ychwanegol sylweddol ar gyfer hyfforddiant gorfodol [sic]... yn effeithio'n negyddol ar faint o amser HMS ar gyfer blaenoriaethau pwysig, sy'n golygu mai'r chweched diwrnod yw'r unig amser sydd ar gael ar gyfer gwaith cwricwlwm."

Cyfweliad â phennaeth

3.3. Cynhwysiant a mynediad i bob grŵp staff

Yn hanesyddol, mae dyddiau HMS wedi bod yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol athrawon cymwysedig. Fodd bynnag, nod yr ymchwil oedd deall i ba raddau y mae eraill mewn rolau cymorth yn cael eu cynnwys. O'r 78 o ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod yn gymorthyddion addysgu (CA) (gan gynnwys gweithwyr cymorth dysgu ysgolion, cymorthyddion addysgu a Chymorthyddion Addysgu Lefel Uwch) dywedodd 75 eu bod wedi mynychu HMS. Ar ben hynny, roedd pob un o'r ysgolion y cymerodd eu harweinwyr ran mewn cyfweiliadau yn anelu at gynnwys CA mewn diwrnodau HMS, gyda llawer yn datgan bod ganddynt ymrwymiad cryf i sicrhau bod yr holl staff addysgu yn cymryd rhan. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae CA yn mynychu sesiynau ysgol gyfan, lle mae CA a staff addysgu yn cymryd rhan gyda'i gilydd yn yr un gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Mewn cyfweiliadau, adroddodd arweinwyr ysgol y gellir teilwra sesiynau i adlewyrchu anghenion a chyfrifoldebau proffesiynol perthnasol CA. Lle mae hyn yn digwydd, mae arweinwyr fel arfer yn adrodd lefelau uwch o ymgysylltu a chyfranogiad gan y CA. Fodd bynnag, tynnodd sawl ysgol sylw at heriau wrth weithredu dulliau wedi'u teilwra lle mae presenoldeb mewn sesiynau HMS penodol yn orfodol, megis sesiynau sy'n gysylltiedig â diwygiadau cymwysterau CBAC neu ddiweddariadau cwricwlwm wedi'u hanelu at athrawon. Yn yr amgylchiadau hyn, adroddodd arweinwyr y gallai CA deimlo'n llai ymgysylltiedig pan nad yw'r cynnwys yn uniongyrchol berthnasol iddynt.

Mae ysgolion eraill hefyd yn wynebu heriau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnwys CA. Gall trefniadau cytundebol, gan gynnwys diffyg rhwymedigaeth i gymryd rhan mewn HMS a gweithio rhan amser, effeithio ar bresenoldeb mewn sesiynau. Dywedodd arweinydd ysgol gynradd eu bod yn "tueddu i weld presenoldeb is gan y CA rhan amser oherwydd bod HMS yn aml yn disgyn ar eu diwrnod di-waith".

Tynnodd rhanddeiliaid o sefydliadau cenedlaethol, undebau ac awdurdodau lleol sylw at wahanol batrymau ledled Cymru mewn cytundebau tymor yn unig gan nodi ei fod yn arwain at amrywiad o ran a yw taliad am amser HMS yn rhan o delerau cyflogaeth CA. Nododd sawl ysgol hefyd effeithiau ymarferol y gwahaniaethau cytundebol hyn gydag uwch-arweinwyr yn disgrifio heriau wrth sicrhau presenoldeb CA cyson lle mae staff ar gontractau 38 neu 39 wythnos ac felly nid ydynt yn cael eu talu am amser HMS (h.y. 6 diwrnod ychwanegol). Dywedodd rhai cyfweleion eu bod yn mynd i'r afael â bylchau cytundebol drwy dalu CA am oriau ychwanegol a chynnig sesiynau gwyll neu dacluso, gan sicrhau eu bod yn dal i allu cymryd rhan yn HMS er nad oedd ganddynt gytundeb ar gyfer y dyddiau hynny. Nododd ysgolion arbennig fod pob CA yn mynychu ond pwysleisiodd hefyd fod hyn yn bosibl dim ond oherwydd bod eu hawdurdodau lleol yn rhoi cytundeb 39 wythnos+ i'r CA.

Hyd yn oed gyda'r mesurau hyn ar waith, gall cyfrifoldebau gofal plant barhau i fod yn rhwystr i bresenoldeb CA, yn enwedig gan fod cyfranogiad yn wirfoddol ac nid yn ofynnol o ran cytundeb. Nododd un cyfwelydd y gall gorfod talu am ofal plant wneud presenoldeb "rheswm gwaharddol" hyd yn oed pan fydd trefniadau HMS hyblyg yn cael eu cynnig. O ganlyniad, mewn gwirionedd ni fydd llawer yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau HMS, er gwaethaf bwriad ar lefel ysgol i wneud HMS yn gynhwysol i'r holl staff.

Roedd rhai sylwadau mewn perthynas â'r graddau y mae anghenion datblygu a hyfforddi CA yn cael eu diwallu. Nodwyd y CA gan rai aelodau o UDA a gymerodd ran yn y cyfweiliadau fel grŵp y mae eu blaenoriaethau datblygiad unigol yn llai tebygol o lywio cynllunio HMS, yn rhannol oherwydd nad yw prosesau adolygu datblygiad proffesiynol cyson ar waith ar gyfer y grŵp hwn. Mae canfyddiadau'r arolwg yn gwrth-ddweud hyn ychydig, gyda thros 9 allan o 10 o'r CA a ymatebodd yr arolwg yn adrodd bod diwrnodau HMS yn gwneud rhywfaint o wahaniaeth neu wahaniaeth mawr i'w datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod anghysondeb rhwng canfyddiadau arweinwyr o alinio HMS ag anghenion datblygiad proffesiynol CA a faint mae'r CA eu hunain yn gwerthfawrogi darpariaeth HMS mewn perthynas â'u datblygiad proffesiynol unigol.

Mae yna amrywiaeth sylweddol yn y graddau y mae blaenoriaethau datblygu athrawon yn cael eu hystyried wrth gynllunio amser HMS, sydd â goblygiadau o ran ymgysylltu a chynhwysiant. Mewn rhai ysgolion, adroddodd uwch-arweinwyr fod anghenion ymarferwyr yn cael eu nodi drwy adolygiadau datblygiad proffesiynol, myfyrio ar safonau proffesiynol, ac arolygon staff, ond mewn ysgolion eraill mae'r CDY yn cael ei ystyried i raddau helaeth gan arwain at HMS a rennir, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau lefel ysgol. Er bod rhai ymarferwyr yn siarad yn gadarnhaol am y sesiynau hyn, pwysleisiodd eraill fod ymagwedd un dull i bawb o gynllunio HMS yn cyfyngu perthnasedd ac yn lleihau cynhwysiant lle mae'n cael ei ystyried fel nad yw'n adlewyrchu anghenion datblygiad proffesiynol unigol. Gall hefyd olygu bod amser cyfyngedig ar gael i fynd i'r afael ag anghenion datblygu ymarferwyr unigol, sy'n cael eu cwmpasu'n amlach drwy ddysgu proffesiynol sy'n digwydd y tu allan i amser HMS.

Awgrymodd un unigolyn o undeb addysgu a gafodd ei gyfweld fod ychydig llai na thraean o'u haelodau wedi adrodd iddynt bod diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan nodi nad yw'n cefnogi datblygiad proffesiynol unigol yn gyson ar draws pob ymarferydd. Er bod materion wedi'u codi yn yr ymchwil hwn, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg fod diwrnodau HMS yn gwneud rhywfaint o wahaniaeth neu wahaniaeth mawr i'w datblygiad proffesiynol.

3.4. Cydweithio a gweithio mewn clwstwr

Mae yna ddull amrywiol o ran sut mae ysgolion yn defnyddio diwrnodau HMS i gefnogi cydweithio a gweithio mewn clwstwr. Mae'r rhan fwyaf o uwch-arweinwyr a gyfwelwyd yn adrodd bod amser HMS yn cael ei ddefnyddio yn bennaf i gefnogi cydweithio yn eu lleoliad ysgol eu hunain. Ar lefel uwchradd, mae hyn fel arfer yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng staff, yn enwedig o fewn adrannau pwnc. Mae cydweithio ar draws adrannau yn digwydd yn llai aml, ond adroddodd rhai ysgolion gynllunio traws-adrannol ac adolygu strategaethau addysgu ar y cyd. Mae'r math hwn o gydweithio mewnol hefyd yn

cynnwys defnyddio arbenigedd staff i ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr, gyda rhai ysgolion yn defnyddio dull "quid pro quo" i gyfnewid arbenigedd ar draws adrannau neu gydag ysgolion eraill. Mae dulliau eraill yn cynnwys cymedroli gwaith ar draws dosbarthiadau ac adrannau i sicrhau cysondeb o ran asesu, a chynllunio ar y cyd ar ddilyniant cwricwlwm ac addysgeg o fewn adrannau.

Dywedodd cyfran lai o uwch-arweinwyr a gyfwelwyd fod arbenigedd allanol yn cael ei ddwyn i mewn o bryd i'w gilydd i gefnogi dysgu proffesiynol cydweithredol. Mae hyn yn tueddu i fod yn dargedig ac yn canolbwyntio ar feysydd lle mae arbenigedd ymhlith staff yn gyfyngedig, fel gwrth-hiliaeth, diogelu, neu ADY. Mae ysgolion hefyd yn manteisio ar hyfforddiant am ddim neu gost isel a ddarperir gan awdurdodau lleol (neu gonsortia rhanbarthol cyn diwygio'r system), neu ddarparwyr eraill. Soniwyd am rwystrau fel cost, argaeledd, a phenodoldeb yr hyfforddiant sydd ei angen fel cyfyngu ar ddefnydd ehangach o arbenigedd allanol.

Mae gweithio mewn clwstwr yn cyfeirio at gydweithio strwythuredig rhwng grwpiau o ysgolion, fel arfer o fewn ardal ddaearyddol lleol neu rwydwaith partneriaeth ffurfiol, i gynllunio a chyflawni dysgu proffesiynol ar y cyd, rhannu arferion a chydlynu gweithgarwch o amgylch blaenoriaethau a rennir. Mae cydweithio allanol yn cyfeirio at ysgolion sy'n gweithio gyda sefydliadau neu unigolion y tu allan i'w lleoliad neu glwstwr eu hunain, megis awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol neu ddarparwyr arbenigol.

Awgrymodd cyfweiliadau ag uwch-arweinwyr fod cydweithio ag ysgolion eraill neu bartneriaid allanol yn nodwedd sefydledig o ddysgu proffesiynol, wedi'i gefnogi gan rwydweithiau clwstwr gweithredol a gweithgarwch rheolaidd ar y cyd. Mewn ysgolion sydd â rhwydweithiau clwstwr mwy gweithredol, mae'n gyffredin i un diwrnod HMS gael ei gadw'n benodol ar gyfer gweithgareddau cydweithredol gydag ysgolion eraill. Mae'r diwrnodau clwstwr hyn yn galluogi athrawon i weithio gyda chydweithwyr o ysgolion eraill ar flaenoriaethau cyffredin fel dylunio cwricwlwm, asesu ac addysgeg. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhai ysgolion sy'n cynnal sesiynau gwyll mathemateg clwstwr ddwywaith y flwyddyn, hyfforddiant ar y cyd ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, a digwyddiadau clwstwr dan arweiniad timau dysgu proffesiynol o awdurdodau lleol. Weithiau mae gweithgarwch wedi'i dargedu at grwpiau staff penodol, gyda sesiynau'n canolbwyntio, er enghraifft, ar staff CA neu ADY, gan alluogi dysgu proffesiynol i gael ei rannu rhwng ymarferwyr sydd â chyfrifoldebau tebyg ac i ganiatáu i unrhyw gost i'r hyfforddwr gael ei dalu ar draws mwy nag un ysgol.

Lle mae trefniadau clwstwr yn llai datblygedig, mae gweithgarwch cydweithredol yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig ac wedi'i lunio gan gyfyngiadau ymarferol fel capasiti, sefydlogrwydd arweinyddiaeth, a'r gallu i alinio blaenoriaethau ar draws ysgolion. Mewn achosion o'r fath, adroddodd arweinwyr fod y cydweithio yn fwy targedig neu ysbeidiol, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol, neu gyfleoedd lle mae cydlynu ar draws ysgolion yn ymarferol.

Nododd rhai ysgolion heriau wrth weithredu HMS sy'n seiliedig ar glwstwr. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth mewn gweithgaredd clwstwr, anhawster cytuno ar flaenoriaethau a rennir ar gyfer y dydd, a chyfyngiadau amseru sy'n gwneud amserlennu sesiynau HMS ar y cyd yn heriol. Mewn ysgolion y tu allan i rwydweithiau clwstwr mwy sefydledig, mae yna

rwysrau ychwanegol, megis gwybodaeth gyfyngedig o'r hyn y mae ysgolion eraill yn ei wneud yn dda, anawsterau rhyddhau athrawon i ymweld ag ysgolion eraill, trosiant uwch-arweinwyr, a llwyth gwaith gweinyddol. Mae'r ffactorau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd bod diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar y cyd.

Yn yr un modd â'r pum niwrnod HMS gwreiddiol, mae yna ddull amrywiol o ddefnyddio'r diwrnod ychwanegol ar gyfer cydweithio. Dywedodd yr uwch-arweinwyr a gymerodd ran yn y cyfweiliadau er bod y diwrnod HMS ychwanegol yn cynnig y potensial i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol cydweithredol, mae'r graddau y mae hyn yn cael ei wireddu yn dibynnu ar gryfder a threfniadaeth rhwydweithiau clwstwr, y capasiti sydd ar gael a'r cydlynau ar draws ysgolion.

Ar gyfer lleiafrif o uwch-arweinwyr a gyfwelwyd y mae eu hysgolion yn rhan o rwydwaith clwstwr gweithredol, mae'r diwrnod ychwanegol wedi'i neilltuo yn benodol ar gyfer cydweithio ag ysgolion partner ac fe'i gwerthfawrogir fel cyfle i atgyfnerthu'r dull hwn. Defnyddir y sesiynau hyn ar gyfer rhannu arferion, cymedroli, a chynllunio cydweithredol ar draws y cwricwlwm a meysydd addysgeg. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau sy'n dod â phartneriaid cynradd ac uwchradd at ei gilydd, neu sawl ysgol arbennig, i weithio ar flaenoriaethau a rennir fel dylunio cwricwlwm, dulliau asesu, a strategaethau addysgu ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol. Mae'r sesiynau yn aml wedi'u strwythuro i sicrhau cyfranogiad ystyrion ar draws grwpiau staff. Mae ysgolion yn nodi bod cyd-ddealltwriaeth a chydlynau rhwng aelodau'r clwstwr yn hanfodol i sicrhau bod y diwrnod yn gynhyrchiol. Mewn rhai clystyrau, mae ysgolion hefyd yn defnyddio'r diwrnod HMS ychwanegol i alinio amserlenni, cynllunio gweithgareddau ar y cyd, a chydlynau dyddiadau HMS eraill ar draws lleoliadau, gan helpu i arbed amser, lleihau dyblygu hyfforddiant, a gwneud y mwyaf o fanteision dysgu proffesiynol cydweithredol.

Fodd bynnag, mae ysgolion y tu allan i rwydweithiau clwstwr gweithredol yn tueddu i ddefnyddio'r diwrnod ychwanegol yn fwy hyblyg, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau lefel ysgol yn hytrach na chydweithio traws-ysgol. Gall hyn gynnwys hyfforddiant mewnol wedi'i dargedu, datblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwerthuso, neu gynllunio cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion penodol staff yr ysgol.

3.5. Llywodraethu a chyfathrebu

Disgrifiodd uwch-arweinwyr ystod o ddulliau o gyfathrebu gweithgarwch HMS i lywodraethwyr ysgolion, gan gynnwys mecanweithiau ffurfiol fel adroddiadau hanner tymor, adroddiadau penaethiaid ac adroddiadau blynyddol, yn ogystal â'r defnydd o offer strwythuredig fel arolygon staff i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau ar werth y dulliau hyn yn gymysg, gyda rhai uwch-arweinwyr yn cwestiynu defnyddioldeb adrodd safonol, gan ei ystyried yn rhywbeth gweithredol i raddau helaeth.

Nodwyd heriau hefyd wrth ymgysylltu â llywodraethwyr â diwrnodau HMS, yn enwedig lle roedd newidiadau i'r cwricwlwm yn golygu nad oedd gan rai llywodraethwyr y wybodaeth gyfredol i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau am HMS a blaenoriaethau dysgu

proffesiynol. Er bod llywodraethwyr yn aml yn cael eu gwahodd i fynychu diwrnodau HMS, nid yw'r rhan fwyaf fel arfer yn gwneud hynny, gan adlewyrchu natur wirfoddol y rôl a'r cyfyngiadau ymarferol ar yr amser sydd gan lywodraethwyr ar gael. Pan fydd llywodraethwyr yn mynychu diwrnodau HMS, adroddodd arweinwyr fod hyn fel arfer wedi'i gyfyngu i sesiynau penodol sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'w rôl, megis diogelu a blaenoriaethau strategol.

Disgrifiodd uwch-arweinwyr hefyd ystod o heriau wrth gyfathrebu trefniadau HMS yn ehangach. Bu i gyfweiliadau ag arweinwyr ysgol amlygu'r pwysau sy'n gysylltiedig â hysbysu rhieni am amserlennu HMS. Er bod diwrnodau HMS fel arfer wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan cyn iddi ddechrau, gall hyn newid, gyda dyddiadau weithiau'n newid ar fyr rybudd. Disgrifiwyd newidiadau o'r fath fel rhai sy'n achosi ymatebion cryf gan deuluoedd oherwydd y baich gofal plant ychwanegol a grëwyd. Dywedodd un unigolyn o UDA a gyfwelwyd:

"Rydyn ni wedi cael rhywfaint o wthio yn ôl yn y gorffennol gan rieni sy'n cwestiynu pwrpas ac amserlen diwrnodau HMS. Byddai'n fuddiol iawn pe bai Llywodraeth Cymru yn gwella ymwybyddiaeth o pam mae angen diwrnodau HMS arnom."

Adroddodd sawl uwch-arweinydd eu bod wedi derbyn ymholiadau gan rieni ynghylch pam nad yw diwrnodau HMS wedi'u trefnu i ddigwydd y tu allan i amser y tymor, gan atgyfnerthu'r angen am fwy o negeseuon ynghylch sut mae HMS yn cyd-fynd â chontractau athrawon.

Mewn lleoliadau eraill, adroddodd arweinwyr eu bod wedi cymryd camau i sicrhau bod amserlennu HMS yn rhagweladwy ac yn cael ei gynnal ar adegau a allai fod yn fwy ffafriol. Yn yr achosion hyn, nid oes unrhyw anghytgord â rhieni wedi digwydd. Nododd un uwch-arweinydd:

"Ni fu unrhyw ymatebion anffafriol gan rieni, yn ôl pob tebyg oherwydd ein bod ni'n trefnu diwrnodau HMS ar bwyntiau rhagweladwy, sy'n ystyriol o deulu - fel arfer ar ffiniau tymor - ac yn eu cyfathrebu'n glir."

Roedd cyfathrebu ag awdurdodau lleol hefyd yn amrywio'n fawr ar draws yr ysgolion a gynhwyswyd yn y sampl ymchwil. Adroddodd tair ysgol yn benodol am fymryn o ymgysylltu neu ymgysylltu anghyson gan eu hawdurdod lleol mewn perthynas â chynllunio HMS neu ddisgwyliadau HMS, gydag un ysgol yn nodi nad oes "llawer o ymgysylltiad gan yr awdurdod lleol ynghylch darpariaeth HMS". Nododd eraill nad oeddent fel arfer yn rhannu eu cynlluniau HMS gyda'r awdurdod lleol neu nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw broses ffurfiol yn bodoli, gyda dim ond enghreifftiau prin gan arweinwyr ysgolion yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn gofyn am amserlenni neu beth sy'n cael eu hystyried yn ofynion hyfforddiant gorfodol. Mewn cyferbyniad, disgrifiodd rhanddeiliaid awdurdodau lleol gysylltiad mwy rheolaidd ag ysgolion ac ymddengys bod llawer o'r ymgysylltiad hwn yn ymwneud â blaenoriaethau dysgu proffesiynol unigol fel diwygiadau ADY, diogelu neu ddatblygu'r cwricwlwm. Mae hyn yn awgrymu rhywfaint o ganfyddiadau nad ydynt yn cyd-fynd lle mae awdurdodau lleol yn gweld eu hunain yn cyfathrebu'n gyson ar ddysgu proffesiynol, er nad yw ysgolion o reidrwydd yn profi hyn fel ymgysylltiad uniongyrchol â'u gwaith cynllunio HMS.

3.6. Effaith ar ymarferwyr ac ysgolion

Mae canfyddiadau o gyfweiliadau ag UDA ac ymatebion i arolwg ymarferwyr yn dangos bod ymarferwyr yn credu bod dysgu proffesiynol a gynhelir yn ystod diwrnodau HMS yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad proffesiynol (88%) a'u hymarfer yn yr ystafell ddosbarth (87%).

Yn ystod cyfweiliadau, adroddodd arweinwyr ysgolion ac athrawon yn aml fod diwrnodau HMS yn cyfrannu at well gwybodaeth a datblygiad proffesiynol drwy ddarparu amser gwerthfawr i ymgysylltu â syniadau newydd, canllawiau wedi'u diweddarau a gofynion cwricwlwm. Pwysleisiodd sawl un a gyfwelwyd fod HMS yn helpu staff i gadw ar flaen datblygiadau cenedlaethol a meysydd diwygio polisi. Nododd eraill fod HMS yn darparu amser hanfodol i ganolbwyntio ar addysgeg ac maent yn gwerthfawrogi amlygiad i ddulliau newydd a disgwyliadau wedi'u diweddarau, gan ddisgrifio HMS fel cyfle angenrheidiol i loywi dealltwriaeth a fyddai fel arall yn anodd ei gyflawni yn ystod wythnos ysgol arferol.

Yn yr arolwg, disgrifiodd ymarferwyr gymhwyso dysg o ddyddiau HMS i gynllunio, addysgu, asesu, a chyfrifoldebau proffesiynol ehangach. Roedd y sylwadau testun agored yn tynnu sylw at sut mae diwrnodau HMS wedi helpu staff i "ddysgu strategaethau a syniadau i roi cynnig arnynt yn yr ystafell ddosbarth" neu ysgogi "newidiadau bach ond arwyddocaol" yn y ffordd yr oeddent yn ymateb i anghenion dysgwyr. Gwelwyd bod diwrnodau HMS hefyd yn cefnogi ymarferwyr i fyfyrion ar eu harferion addysgu yn y dosbarth, nodi meysydd i'w gwella, ac ystyried sut mae eu harferion yn cyd-fynd â'r safonau a'r blaenoriaethau disgwyliedig.

Pwysleisiodd aelodau'r UDA a gyfwelwyd ac ymatebion yr arolwg ymarferwyr werth cyfleoedd i gydweithio'n fewnol yn ystod diwrnodau HMS wrth gyfrannu at welliannau nid yn unig yn eu hysgolion eu hunain ond hefyd ar draws ysgolion a chlystyrau cyfagos, gan ddod â syniadau yn ôl sy'n llywio dyluniad cwricwlwm, amgylcheddau ystafell ddosbarth, a dulliau o gefnogi dysgwyr.

Er gwaethaf y canfyddiadau cadarnhaol hyn i raddau helaeth, mae ymatebion yr arolwg yn dangos bod effaith diwrnodau HMS ar wybodaeth, sgiliau ac arferion ymarferwyr yn amrywiol ac yn aml yn oddrychol. Er bod 48% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod HMS wedi cael effaith gadarnhaol fawr ar eu harferion, nododd 41% rywfaint o effaith a dywedodd 11% nad oedd yn cael unrhyw effaith. Ymhlith cyfweiliadau, nododd sawl ymarferydd fod effeithiolrwydd "yn dibynnu ar yr HMS sy'n cael ei ddarparu" ac a yw'r cynnwys yn amlwg yn berthnasol i'w rôl. Pwysleisiodd uwch-arweinwyr fod HMS yn fwyaf buddiol pan fo ei ffocws yn eglur ac yn gysylltiedig ag arferion yn yr ystafell ddosbarth, gyda chynnwys cyffredinol neu ailadroddus yn cael ei ddisgrifio fel "dim effaith" neu fod yn "ymarfer ticio blwch." Tynnodd eraill sylw at y ffaith mai heb amser dilynol i ymgorffori dysg, "na ellir gweithredu" syniadau a rennir yn ystod HMS neu eu bod yn cael eu colli'n gyflym yng nghanol pwysau o ddydd i ddydd.

Nododd dadansoddiad o'r ymatebion arolwg testun agored effeithiau yn ymwneud â llesiant. Tynnodd cyfanswm o 34 o ymatebion sylw at fanteision cydweithredol HMS gan bwysleisio cyfleoedd i gysylltu â chydweithwyr, rhannu profiadau a darparu cefnogaeth i'w gilydd.

Atgyfnerthodd tystiolaeth cyfweliad y pwynt hwn. Disgrifiodd arweinwyr HMS fel un o'r ychydig achlysuron pan allai'r holl staff, gan gynnwys athrawon, CA, staff cymorth ac weithiau llywodraethwyr, ddod at ei gilydd. Ystyriwyd hyn yn arbennig o werthfawr mewn ysgolion mawr neu aml-safle, lle all staff deimlo'n ynysig.

Disgrifiodd rhai ymatebwyr yr arolwg (9) HMS fel un sy'n darparu amser gwerthfawr ar gyfer myfyrio. Disgrifiodd ymarferwyr HMS fel seibiant o ofynion uniongyrchol yr ystafell ddosbarth, gan ganiatáu iddynt fyfrio ar eu hymarfer a "chymryd anadl". Mae data cyfweliad yn cefnogi'r canfyddiad hwn o'r arolwg. Disgrifiodd staff mewn sawl ysgol bod diwrnod llawn HMS yn "amser o ansawdd" sy'n galluogi myfyrio, trafodaeth agored ac ailgysylltu â phwrpas proffesiynol, heb y blinder sy'n gysylltiedig â sesiynau gwyll ar ôl diwrnodau ysgol heriol. Adroddodd rhai arweinwyr hefyd eu bod wedi dylunio HMS yn fwriadol i gynnwys gweithgareddau myfyriol, trafodaeth a chydgrynhoi a rennir, i gefnogi gofod meddyliol a gorffwys gwybyddol.

Disgrifiodd 7 ymateb arall welliannau mewn hyder staff. Roedd y rhain yn aml yn gysylltiedig â HMS a oedd yn darparu arweiniad clir a chefnogaeth ymarferol, y gallent wedyn eu mabwysiadu yn yr ystafell ddosbarth. Canfuwyd bod dysgu proffesiynol a helpodd ymarferwyr i ddeall disgwyliadau ohonynt yn well o ran dulliau o reoli ystafell ddosbarth/ymddygiad neu i ddatblygu strategaethau ar gyfer rheoli llwyth gwaith yn lleihau straen ac ansicrwydd.

Mae'r canfyddiadau'r arolwg hwn yn gyson â thystiolaeth cyfweliad. Disgrifiodd ymarferwyr ac arweinwyr sut y gall HMS helpu staff i deimlo'n fwy diogel yn eu rolau drwy gynnig sicrwydd, datblygu dealltwriaeth a rennir a chreu cyfleoedd i adolygu a mireinio arferion dros amser. Tynnodd uwch-arweinwyr mewn ysgolion arbennig sylw at bwysigrwydd hyfforddiant cyson ac ailadroddus, er enghraifft mewn dulliau cyfathrebu, rheoleiddio synhwyrdd neu ymddygiad. Nodwyd bod hyn yn lleihau pryder sy'n gysylltiedig â theimlo heb fod wedi paratoi'n ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr cymhleth. Er bod y safbwyntiau hyn yn cynrychioli cyfran gyfyngedig o'r set ddata gyffredinol, maent yn ffurfio patrwm cyson o fewn ymatebion sy'n canolbwyntio ar lesiant.

Adroddodd llond llaw o ymarferwyr hefyd fod mwy o gymhelliant neu frwdfrydedd yn dilyn HMS, yn enwedig pan oedd dysgu proffesiynol yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn cyd-fynd yn agos â'u hanghenion. Adleisiodd arweinwyr y farn hon, gan nodi y gall sesiynau wedi'u cynllunio'n dda fod yn galonogol a helpu i adnewyddu ymrwymiad staff i wella. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn glir bod yr effeithiau cadarnhaol hyn yn dibynnu ar ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant.

Fodd bynnag, adroddodd ychydig o ymatebion i'r arolwg rai effeithiau llesiant negyddol, gan gynnwys mwy o straen, pwysau ychwanegol a chanfyddiadau bod HMS yn cyfrannu at lwyth gwaith. Codwyd pryderon tebyg mewn cyfweliadau, lle disgrifiodd rhai ymarferwyr eu bod yn teimlo wedi'u llethu pan fydd yr hyn a ystyrir yn ofynion gorfodol yn dominyddu HMS, neu pan ddefnyddiwyd sesiynau gwyll ar ôl diwrnod llawn o addysgu yn lle diwrnodau HMS llawn, gan arwain at fwy o flinder yn hytrach na llesiant gwell.

Mae cyfweiliadau ag UDA ac ymatebion arolwg ymarferwyr yn awgrymu y gall diwrnodau HMS gyfrannu at ddatblygiad ysgolion yng nghyd-destun ysgolion fel sefydliadau dysgu. Pwysleisiodd uwch-arweinwyr ei fod yn cynnig cyfle strwythuredig i sicrhau dealltwriaeth a rennir o flaenoriaethau pwysig ar draws yr ysgol. Disgrifiodd un cyfwelydd ddyddiau HMS fel "yr unig gyfle sydd wedi'i sicrhau i ddod â'r holl staff at ei gilydd ar gyfer dysgu proffesiynol, hyfforddiant gorfodol [sic], a chynllunio cwricwlwm".

Yn ystod cyfweiliadau, adroddodd ymarferwyr hefyd fod diwrnodau HMS yn cyfrannu at well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r CDY, gyda sawl un yn nodi bod amser pwrpasol yn eu helpu i weld sut mae nodau ysgol gyfan yn trosi i ddisgwyliadau ystafell ddosbarth. Esboniodd arweinwyr mai HMS yn aml yw'r unig gyfle i "arwain yr holl staff drwy flaenoriaethau CDY," argymhellion arolygiad a newidiadau i'r cwricwlwm, gan sicrhau bod athrawon, CA a staff cymorth ehangach yn derbyn negeseuon cyson.

Mae'r graddau y gall HMS gefnogi datblygiad ysgolion yn y ffyrdd hyn yn cael ei bennu'n gryf gan ansawdd, perthnasedd ac aliniad strategol darpariaeth HMS. Lle mae diwrnodau HMS â chysylltiad clir â materion fel blaenoriaethau ehangach ysgol a datblygiad proffesiynol, gwelwyd eu bod yn cefnogi dull gweithredu cyson, ysgol gyfan at ddysgu proffesiynol ac yn cyfrannu at ymgorffori dysgu yn ymarferol.

Nododd cyfweiliadau ag uwch-arweinwyr fod diwrnodau HMS yn fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio i fynd i'r afael â bylchau cyffredin mewn gwybodaeth neu arferion ar draws cyfran eang o staff. Lle mae anghenion datblygiad proffesiynol yn fwy unigol, fe'u hystyriwyd yn llai effeithiol na datblygiad proffesiynol wedi'i dargedu drwy gydol y flwyddyn.

Yng nghyd-destun ysgolion fel sefydliadau dysgu, canfuwyd bod diwrnodau HMS yn cefnogi datblygiad ysgolion drwy greu lle ar gyfer meddwl a dysgu ar y cyd. Mae hyn yn cefnogi nodweddion pwysig, megis cyfrifoldeb a rennir am wella a defnyddio dysgu proffesiynol i lywio newid. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr fod yr effaith hon yn dibynnu ar ddiwrnodau HMS yn cael eu cynllunio i annog ymgysylltu ystyrlon ac yn gysylltiedig â chylchoedd parhaus o fyfyrion a datblygiad, yn hytrach na sefyll ar eu pennau eu hunain.

Ar draws y data o'r arolwg a'r cyfweiliadau, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y chweched diwrnod HMS yn cynhyrchu effeithiau sylweddol wahanol i ymarferwyr o'i gymharu â'r pum niwrnod safonol. Yn hytrach, adroddodd ymatebwyr yn gyson fod y diwrnod ychwanegol yn cryfhau'r manteision nodweddiadol sy'n gysylltiedig â HMS yn hytrach na chyflwyno mathau newydd o effaith.

3.7. Effaith ar ddysgwyr a chanlyniadau ehangach

Mae ymatebion i'r arolwg ymarferwyr yn dangos eu bod yn credu bod HMS yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr gydag 82% o'r farn ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr (42%) neu ryw faint o wahaniaeth (40%) i ganlyniadau dysgwyr. Mae'r canfyddiad hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn tystiolaeth o gyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion, a chydychrynchiolwyr awdurdodau lleol.

Esboniodd a gyfwelwyd mai anaml y mae ysgolion yn mesur effeithiau dysgwyr sy'n deillio o HMS drwy unrhyw system bwrpasol neu annibynnol. Yn hytrach, mae effeithiau'n cael eu hasesu'n anuniongyrchol drwy brosesau monitro presennol fel data cynnydd, presenoldeb, arsylwadau o ymgysylltu a myfyrio ymarferwyr. Mewn rhai achosion, adroddodd arweinwyr dystiolaeth anecdotaidd o welliannau diriaethol yn erbyn targedau llythrennedd a rhifedd unigol a llai o ddigwyddiadau ymddygiadol sy'n gofyn am ymyrraeth ffisegol.

Ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid a gymerodd ran mewn cyfweiliadau, fodd bynnag, roedd yna gydnabyddiaeth gref o'r anhawster o ran pennu effaith uniongyrchol HMS ar ddysgwyr. Nododd y cyfranogwyr mai dim ond un ffactor sy'n dylanwadu ar ganlyniadau dysgwyr yw dysgu proffesiynol ochr yn ochr ag eraill fel cymorth rhieni, statws economaidd-gymdeithasol, dylanwad cyfoedion ac ansawdd deunyddiau dysgu. Roedd yr her hon yn amlwg mewn ysgolion arbennig, lle disgrifiwyd cynnydd a chanlyniadau fel pethau unigol ac yn bethau nad yw'n hawdd eu mesur drwy fesurau safonol neu ar lefel carfan. Adlewyrchir y cymhlethdod hwn yn y ddamcaniaeth newid (Atodiad A), sy'n cydnabod bod disgwyl i ganlyniadau ac effeithiau dysgwyr ddigwydd yn anuniongyrchol a thros amser, yn dilyn newidiadau mewn gwybodaeth a hyder ymarferwyr sy'n arwain at welliannau mewn arferion. Yn y model hwn, mae gwelliannau i ddysgwyr yn dibynnu ar ganlyniadau i ymarferwyr yn gyntaf, yn hytrach na bod yn briodol i HMS ar wahân.

Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, disgrifiodd y rhai y'u cyfwelwyd HMS yn gyson fel modd o wella ansawdd addysgu drwy arfogi staff gyda dulliau addysgegol cliriach, dealltwriaeth cwricwlwm wedi'i ddiweddarau a strategaethau ymarferol. Tynnodd arweinwyr sylw at y ffaith bod HMS ychwanegol, wedi'i ddilyniannu'n dda yn gwella darpariaeth ystafell ddosbarth, gydag un pennaeth yn nodi bod athrawon wedi dychwelyd i'w hystafelloedd dosbarth "wedi gwella eu sgiliau yn sylweddol ac yn gallu datrys eu problemau eu hunain". Deallwyd y gwelliannau hyn yng ngallu ymarferwyr fel y prif lwybr y mae HMS yn gwella profiadau dosbarth dysgwyr.

Ystyriwyd HMS hefyd yn hanfodol ar gyfer sefydlu cysondeb ar draws addysgu, staff cymorth a rolau ehangach, yn enwedig o ran ymddygiad, cyfathrebu a chynhwysiant. Pwysleisiodd arweinwyr fod arferion HMS cynhwysol yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau a dulliau ar draws yr ysgol. Disgrifiodd ymarferwyr sut y rhoddodd HMS amser iddynt "ddod yn ôl at ei gilydd i rannu ein teithiau dysgu ein hunain", a helpodd i alinio dulliau a lleihau amrywiad rhwng dosbarthiadau. Ystyriwyd y cydlyniant hwn yn uniongyrchol fuddiol i ddysgwyr, sy'n profi arferion mwy rhagweladwy, pontio llyfn ac ymatebion cyson gan oedolion drwy gydol y diwrnod ysgol.


Yn olaf, tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at y ffaith bod dysgwyr yn elwa pan fydd staff yn teimlo'n hyderus, wedi'u cefnogi a heb eu llethu gymaint. Esboniodd sawl arweinydd fod HMS yn darparu amser wedi'i neilltuo i staff ganolbwyntio, myfyrio a gloywi dysg heb flinder. Disgrifiodd eraill sut mae rhannu yn rhannau llai yr hyn a ystyriwyd yn hyfforddiant diogelu neu fugeiliol gorfodol yn ei gwneud hi'n haws i staff a allai fod wedi cael profiadau o sefyllfaoedd heriol, gan osgoi gorrwytho gwybyddol a straen emosiynol. Gwelwyd bod y gwelliannau hyn mewn llesiant ymarferwyr o fudd anuniongyrchol i ddysgwyr drwy ryngweithiadau tawelach, gwneud penderfyniadau yn well ac oedolion â rheolaeth emosiynol well yn yr ystafell ddosbarth.

Er nad oedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn nodi unrhyw effeithiau penodol y chweched diwrnod HMS ar ddysgwyr, pwysleisiant yn gyson fod yr amser ychwanegol yn helpu i gryfhau'r amodau ar gyfer gwella canlyniadau dysgwyr. Mae gweithgareddau sydd â manteision addysgegol cliriach neu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, megis datblygu cwrwllwm, dulliau ymdrin ag ymddygiad a chyfathrebu, neu arferion dosbarth cynhwysol, yn fwy ymarferol oherwydd y chweched diwrnod. Yn yr un modd, pwysleisiodd arweinwyr mewn ysgolion arbennig fod y chweched diwrnod yn darparu'r lle sydd ei angen i ymgorffori dulliau cyfathrebu, ymddygiad a chymorth synhwyraidd cyson ar draws timau staff mawr, a welsant yn ganolog i greu amgylcheddau dysgu tawelach, mwy rhagweladwy i ddysgwyr.

3.8. Barn ar yr angen am y chweched diwrnod HMS

Yn ogystal ag ymholi am effeithiau HMS, casglodd yr ymchwili farn gan gyfranogwyr ar werth ac angen y chweched diwrnod ychwanegol. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymarferwyr am eu barn ynghylch a yw'n galluogi gwell cefnogaeth i ddysgu proffesiynol gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg (71%) yn awgrymu eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (36%) neu'n cytuno (35%) (Ffigur 3.8a).

Ffigur 3.8a A allech chi nodi i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Mae'r chweched diwrnod HMS ychwanegol yn galluogi gwell cefnogaeth i ddysgu proffesiynol.




Ffynhonnell Arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol n=561

Disgrifiad o Ffigur 3.8a: Siart bar sy'n dangos i ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad bod y chweched diwrnod HMS ychwanegol yn galluogi gwella cefnogaeth i ddysgu proffesiynol. Yr ateb mwy cyffredin yw cytuno'n gryf ar 36% a chytuno ar 35%.

Mae'r arolwg hefyd yn archwilio safbwyntiau ar barhad y chweched diwrnod HMS yn y dyfodol. Unwaith eto, mae mwyafrif llethol yr ymatebion (83%) yn mynegi cefnogaeth ar

gyfer y chweched diwrnod, gyda 57% yn cytuno'n gryf a 26% yn cytuno y dylai barhau (gweler Ffigur 3.8b).

Ffigur 3.8b A allech chi nodi i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Rwy'n cefnogi'r ddarpariaeth barhaus o'r chweched diwrnod ychwanegol o HMS



Ffynhonnell Arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol n=561

Disgrifiad o Ffigur 3.8b: Siart bar sy'n dangos i ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â darpariaeth barhaus y chweched diwrnod HMS ychwanegol. Mae'r atebion mwy cyffredin yn cytuno'n gryf ar 57% ac yn cytuno ar 26%. Dim ond 3% sy'n dweud eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Mae tystiolaeth o gyfweiliadau hefyd yn dangos cefnogaeth bron yn unfrydol ymhlith ymarferwyr dros gadw'r chweched diwrnod HMS. Disgrifiodd arweinwyr ar draws pob math o ysgol ei fod yn hanfodol ar gyfer rheoli gofynion hyfforddiant cyffredinol a galluogi dysgu proffesiynol ystyrlon.

Mynegodd ysgolion arbennig yr angen mwyaf am y chweched diwrnod, gan bwysleisio bod eu gofynion hyfforddiant ychwanegol yn fwy na'r hyn y gellir ei gwmpasu yn rhesymol o fewn 5 diwrnod. Rhestrod arweinwyr feysydd sylweddol o hyfforddiant gofynnol fel gweithdrefnau meddygol, systemau cyfathrebu, cymorth ymddygiad, a diogelu sydd eisoes yn cymryd y rhan fwyaf o'u hamser HMS. Heb y chweched diwrnod, eglurodd, ni fyddai llawer o gapasiti ar ôl ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, dysgu datblygiadol, neu waith sy'n gysylltiedig â diwygiadau ADY a llesiant disgyblion. Roedd sawl un yn teimlo bod y gofynion hyfforddiant ychwanegol ar eu hysgol yn gwarantu mwy na 6 diwrnod HMS oherwydd ehangder yr hyfforddiant hanfodol sydd ei angen i gynnal darpariaeth ddiogel ac effeithiol a'r heriau wrth ryddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol yn ystod amser ysgol.

Roedd ysgolion prif ffrwd hefyd yn glir bod y chweched diwrnod HMS yn hanfodol i'w galluogi i reoli'r hyn sy'n cael ei ystyried fel gofynion hyfforddiant gorfodol heb ddisodli blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol sy'n parhau i gynyddu. Tynnodd arweinwyr sylw at yr angen am ddatblygu ac ailadrodd y cwrwllwm yn barhaus, gan nodi bod angen yr amser neilltuedig ychwanegol ar staff i ddeall disgwyliadau, archwilio manylebau newydd, dehongli deunyddiau, alinio dulliau gsweithredu o fewn clystyrau, a chynllunio ar gyfer dilyniant. Pwysleisiodd y byddai colli'r chweched diwrnod HMS yn lleihau'r amser sydd ar gael i fodloni'r blaenoriaethau hyn a byddai'n cynyddu'r pwysau ar staff sydd eisoes yn gweithredu o fewn cyfyngiadau amser tynn.

Er mwyn llywio penderfyniad ynghylch a ddylai'r diwrnod HMS ychwanegol barhau, byddai angen tystiolaeth bellach ar ei gyfraniad penodol at ganlyniadau ymarferwyr a dysgwyr. Dangosodd cyfweiliadau mai anaml y mae ysgolion yn mesur effeithiau HMS, naill ai mewn perthynas â'r 5 diwrnod neu'r chweched diwrnod ychwanegol. Mae ymatebion testun agored yr arolwg yn atgyfnerthu hyn, gan ddisgrifio effaith HMS fel rhywbeth sy'n anodd ei fesur ac yn aml wedi'i guddio gan y cymhlethdod mewn priodoli oherwydd ffactorau perthnasol eraill. Gallai tystiolaeth fwy cadarn felly gynnwys gwerthusiad systematig o sut mae'r chweched diwrnod yn cael ei ddefnyddio ar draws gwahanol fathau o ysgolion, ac olrhain cliriach o newidiadau mewn arferion addysgu neu lwyth gwaith staff y gellir ei briodoli i'r amser ychwanegol. Byddai casglu data cymharol o ysgolion sy'n defnyddio'r chweched diwrnod mewn gwahanol ffyrdd, neu o leoliadau â gofynion hyfforddi amrywiol, hefyd yn helpu i egluro a yw, a dan ba amodau, mae'r diwrnod ychwanegol yn darparu manteision y tu hwnt i'r rhai a gyflawnwyd drwy'r dyraniad HMS 5 diwrnod safonol.

3.9. Hwyluswyr a rhwystrau

Tynnodd tystiolaeth o gyfweiliadau, ymatebion i'r arolwg a deunyddiau achos sylw at nifer o hwylusydd a rhwystrau i ddefnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS.

O ran hwyluswyr, disgrifiodd y rhai a gafodd eu cyfweld ac ymatebwyr yr arolwg yn gyson fod HMS sydd wedi'i angori yn y CDY ac wedi'i lywio gan hunanwerthuso yn fwy pwrpasol a chydlynol, gyda llinellau golwg clir ar flaenoriaethau. Awgrymodd un ymatebydd "mae'n bwysig cysylltu hyfforddiant staff â meysydd blaenoriaeth y cynllun gwella ysgolion [CDY]," wrth i un arall sôn am yr angen am "brosesau hunanwerthuso cryf, sy'n sicrhau bod hyfforddiant yn gysylltiedig â blaenoriaethau pwysig yr ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol." Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn adborth gan arweinwyr eraill a adroddodd eu bod wedi defnyddio'r CDY i ddewis cynnwys a dilyniant gweithgaredd dros y flwyddyn.

Lle mae trefniadau clwstwr yn weithredol ac wedi'u trefnu'n dda, nododd ymarferwyr gysondeb cryfach a defnydd mwy effeithlon o amser, gan gynnwys cynllunio ar y cyd ar flaenoriaethau a rennir a chymedroli. Roedd adborth o gyfweiliad uwch arweinydd hefyd yn canolbwyntio ar werth diwrnodau HMS clwstwr i alluogi cyfleoedd ar gyfer "rhannu adnoddau ac arferion da" yn ogystal â "gweithio ar y cyd â chydweithwyr." Yn yr un modd,

tynnodd cyfweiliadau ag arweinwyr sylw at werth gwaith ar ddilyniant a throsglwyddo yn ystod diwrnodau HMS clwstwr.

Disgrifiodd ysgolion sy'n defnyddio arbenigedd staff mewnol yn systematig hyfforddiant fel un mwy perthnasol a chynaliadwy, gyda modelau rhaeadru a sesiynau dan arweiniad ymarferwyr yn helpu i ymgorffori arferion. Awgrymodd un ymatebydd yr arolwg fod "yr HMS mwyaf gwerthfawr fel arfer yn cael ei ymchwilio, ei baratoi a'i gyflwyno gan staff ein hysgol ein hunain," a disgrifiodd arweinwyr "ddefnydd bwriadol o staff sydd eisoes wedi cael mynediad at hyfforddiant i arwain sesiynau eu hunain". Mewn sawl lleoliad, mae arweinwyr mewnol mewn llythrennedd, rhifedd, ADY ac ymddygiad yn datblygu deunyddiau wedi'u teilwra, yn dangos enghreifftiau o strategaethau o waith dosbarth diweddar ac yn addasu cynnwys i gyfnod, cyfrwng iaith a phroffil dysgwr yr ysgol, a dywedodd y cyfranogwyr bod hynny'n cryfhau cymhwysiad ymarferol. Cysylltodd arweinwyr modelau hyfforddiant dan arweiniad staff â lefel uwch o ymgysylltu, gan esbonio bod hygyrdded, gwybodaeth gyddestunol a'r cyfle i weld dulliau wedi'u modelu gan gyfoedion yn gwneud i gyfranogiad deimlo'n bwrpasol ac yn drosglwyddadwy ar unwaith i'r ystafell ddosbarth. Tynnodd ysgolion arbennig sylw hefyd at werth hyfforddwyr mewnol achrededig ar gyfer cymorth ymddygiad a gweithdrefnau clinigol, gan nodi bod cyflwyno cyson gan staff dibynadwy yn cynyddu hyder ac yn sicrhau cydymffurfiaeth ar raddfa.

Nodwyd cynllunio ymlaen llaw yn eang fel galluogwr neu hwylusydd ymarferol, gydag ysgolion sy'n gosod eu calendr HMS ar gyfer y flwyddyn i ddod yn nhymor yr haf blaenorol ac yn cydlynu dyddiadau clwstwr gyda'r awdurdod lleol yn adrodd llai o wrthdaro o ran amserlennu, yn ei chael hi'n haws trefnu gyda darparwyr allanol a disgwyliadau cliriach ar gyfer staff. Siaradodd arweinwyr am y budd o gynllunio i sicrhau patrymau rhagweladwy ar draws y flwyddyn i gefnogi cydlyniant, er enghraifft angori diwrnodau llawn ar ddechrau tymor yr hydref ar gyfer diweddariadau ac addysgeg bwysig, cadw diwrnod yng nghanol y tymor neu cyn hanner tymor ar gyfer gwaith clwstwr, a neilltuo diwrnod arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer adolygu a chynllunio. Fe'i defnyddiwyd hefyd yn effeithiol i alinio gofal plant a logisteg staffio drwy gydamseru dyddiadau ag ysgolion cyfagos, a lleihaodd anawsterau i staff sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Nodwyd y chweched diwrnod hefyd fel hwylusydd pwysig ar gyfer HMS effeithiol. Yng nghanol yr ystod o hyfforddiant angenrheidiol arall, mae'n darparu amser wedi'i neilltuo gwerthfawr a fyddai fel arall yn cael ei ddisodli gan hyfforddiant diogelu, iechyd a diogelwch a chlinigol angenrheidiol, gan alluogi ysgolion i ganolbwyntio ar gynllunio CiG, paratoi manyleb TGAU a gwaith dilyniant ar draws cyfnodau. Adroddodd ysgolion hefyd fod y chweched diwrnod yn cefnogi cynhwysiant drwy alluogi staff cymorth i gymryd rhan mewn hyfforddiant craidd a gweithgareddau ysgol gyfan. Mae sawl clwstwr yn alinio'r chweched diwrnod ar draws camau i gynnal cymedroli ar y cyd, cytuno ar ddulliau cyffredin a lleihau dyblygu, a ddywedodd arweinwyr sy'n cryfhau parhad y cwricwlwm.

O ran rhwystrau, adroddodd arweinwyr ac ymarferwyr fod llwyth gwaith o ddydd i ddydd yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer cwrmpasu, dilyniant ac adnoddau HMS. Yn ôl sylwadau yn yr arolwg, mae yna "ychydig o amser gwerthfawr" i gynllunio HMS a nodwyd hefyd bod rhaid "gwneud popeth gartref", gan dynnu sylw at ddibyniaeth ar baratoi y tu allan i oriau. Gofynnodd ymatebwyr am gyfnodau cynllunio wedi'u neilltuo ac amser rhyddhau i

"ganolbwyntio ar gynllunio ac adnoddau'r diwrnod [HMS]" gan ychwanegu "ni allwch ateb y ffôn a chynllunio HMS". Cyflwynwyd y cyfyngiad hwn fel rhwystr dro ar ôl tro i ddylunio agendâu cydlynol ac adeiladu camau gweithredu.

Rhwyrstr arall a amlygir yn gyffredin yw llwyth yr hyfforddiant diogelu, iechyd a diogelwch a hyfforddiant hanfodol arall. Dywedwyd bod hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer blaenoriaethau CDY o fewn HMS. Adroddwyd am hyn ar draws rhai ysgolion prif ffrwd a'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig. Disgrifiodd ysgolion arbennig ymrwymadau mawr, gydag un pennaeth yn esbonio bod Team Teach yn unig yn cyfrif am "2 ddiwrnod" a bod gofynion hyfforddiant meddygol a chodi a chario yn cymryd "2 ddiwrnod arall." Nododd arweinwyr yn y cyd-destunau hyn fod ymddygiad, diweddariadau clinigol a meddygol yn gadael sgôp cyfyngedig ar gyfer cwricwlwm neu addysgeg.

Adroddwyd bod cyfranogiad CA yn amrywio lle mae presenoldeb yn disgyn y tu allan i oriau cytundeb neu lle na ellir gwarantu taliad ymlaen llaw, gydag arweinwyr yn nodi bod patrymau gweithio rhan amser a chytundebau 38 wythnos yn ei gwneud hi'n fwy anodd i'r CA fynychu HMS wedi'i drefnu ar ddiwrnodau nad ydynt wedi'u cynnwys yn eu patrwm gweithio dan gytundeb. Disgrifiodd nifer fach o arweinwyr fesurau lliniaru ariannol, fel "cynnig talu'r gost fel y gallant fynychu". Nododd un arweinydd ysgol ffactor sy'n hwyluso neu'n galluogi cynllunio a chyflawni HMS yn effeithiol fel "gwybod ymhell ymlaen llaw y bydd gennym gyllideb i dalu CA i ddod i mewn" wrth i'r CA a ymatebodd yr arolwg yn gofyn am rybudd cynnar fel y gellir trefnu gofal plant a chyfrifoldebau eraill. Hyd yn oed lle mae arweinwyr yn cynnig trefniadau amgen fel sesiynau tacluso neu wyll, mae cyfranogiad yn parhau i fod yn anghyfartal pan fo presenoldeb yn wirfoddol neu'n ddi-dâl, ac adroddodd ysgolion heriau o ran sicrhau sylw cyson o gynnwys HMS ar gyfer staff cymorth nad yw eu horiau dan gytundeb yn cynnwys y sesiynau hyn.

Tynnodd ymatebwyr yr arolwg sylw at gyllidebau cyfyngedig ac argaeledd gwahanol mewnbwn arbenigol o'r tu allan fel rhwystrau. Roedd peth adborth nodweddiadol yr arolwg yn cynnwys "diffyg cyllid yn cael goblygiadau sylweddol o ran adnoddau" gyda'r angen am "amser a'r cyllid i ymwneud ag arbenigedd allanol perthnasol". Mewn cyfweiliadau, adroddodd arweinwyr ysgolion y gall arbenigwyr fod yn ddrud unwaith y bydd costau teithio a llety wedi'u cynnwys, gydag un ysgol arbennig yn esbonio bod darparwyr addas yn aml yn cael eu caffael yn Lloegr a bod costau'n cael eu gwrthbwysu'n rhannol pan fydd yr awdurdod lleol yn cyfrannu, sydd hefyd yn gofyn am agor lleoedd i ganolfannau eraill. Tynnodd sawl ysgol sylw at fylchau mewn mynediad at hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg ac arbenigedd ADY arbenigol. Lle roedd cyllidebau yn dynn, roedd ysgolion yn dibynnu'n fwy ar gyflawni mewnlol neu rannu costau drwy gomisiynu clwstwr, ond roedd argaeledd yn parhau i fod yn gyfyngiad oherwydd bod "argaeledd darparwyr yn hynod gyfyngedig, ni allant fod ym mhob ysgol ar yr un pryd". Roedd ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer cyflenwad llanw ac amser rhyddhau hefyd yn cyfyngu'r gallu i gynllunio neu fynychu hyfforddiant HMS allanol o fewn clystyrau ysgolion.

Adroddodd ysgolion wrthdaro a llai o hyblygrwydd pan fydd amserlenni ar gyfer rhai diwrnodau HMS yn cael eu pennu'n allanol (h.y. gan awdurdodau lleol neu gyrrff cymwysterau i ddarparu hyfforddiant penodol) neu yn ôl confensiwn (e.e.: diwrnod cyntaf ac olaf y flwyddyn ysgol). Nododd un pennaeth uwchradd sy'n gwneud sylwadau ar

weithgaredd diwygio cymwysterau fod "y dyddiad wedi'i osod ac mae'r cynnwys yn dod o CBAC, felly nid oes gennym unrhyw hyblygrwydd." Ychwanegodd arweinwyr fod yna llawer o alw am ddarparwyr ar yr un nifer fach o ddyddiadau HMS sy'n boblogaidd yn genedlaethol, fel dyddiau cyntaf ac olaf y flwyddyn academiaidd, neu ychydig cyn neu ar ôl gwyliau tymor, sy'n canolbwyntio'r galw ac yn lleihau dewis, a bod cadarnhau neu ganslo hwyr gan bartneriaid yn gallu gorfodi'r angen am ailgynllunio cyflym. Dywedwyd hefyd bod cydlynu calendrau ar gyfer y gweithgaredd hwn ar draws ysgolion a gwahanol gyfnodau yn anodd, yn enwedig lle mae clystyrau yn rhychwantu sawl lleoliad a lle mae amser teithio neu bellter yn cyfyngu ar ddichonoldeb sesiynau ar y cyd ar yr un diwrnod. Mewn ymateb, symudodd rhai ysgolion sesiynau i flociau gwyl neu ddiwrnodau tymor hwyr y mae staff yn eu hystyried yn llai cynhyrchiol, wrth i eraill ofyn am rybudd cynharach a sicrwydd cliriach am amseriad y chweched diwrnod i leihau gwrthdaro ac i wella argaeledd darparwyr.

Mae'r un rhwystrau a drafodwyd uchod hefyd yn berthnasol i'r diwrnod ychwanegol, yn enwedig mewn achosion pan fo gweithgaredd y chweched diwrnod yn gysylltiedig â sesiynau diwygio cymwysterau wedi'u trefnu'n allanol. Adroddodd ysgolion hyblygrwydd cyfyngedig i ddarparu dysgu proffesiynol ysgol gyfan sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol i holl staff yr ysgol o ystyried mai dim ond rhai adrannau sy'n mynychu'r sesiynau hyn a bod y dyddiadau yn cael eu pennu gan CBAC.

3.10. Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

Adroddodd uwch-arweinwyr eu bod yn teimlo pwysau i gwmpasu nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn y nifer presennol o ddiwrnodau HMS. Awgrymodd llawer y gallai Llywodraeth Cymru helpu drwy egluro mewn ffordd fwy strategol a chydlynol pa flaenoriaethau sydd bwysicaf i'w cwmpasu, "gan gydnabod bod ysgolion yn amgylcheddau cymhleth ac na allant gyflawni popeth ar unwaith". Teimlir y byddai hyn yn helpu ysgolion i flaenoriaethu cynnwys HMS yn effeithiol a chynllunio gyda mwy o hyder.

Adroddodd ysgolion hefyd y byddai canllawiau cynharach ynghylch themâu blaenoriaeth blynyddol yn eu helpu i alinio HMS â nodau cenedlaethol a chadw hyblygrwydd lleol. Gofynnodd arweinwyr am grynodedau byr, ymarferol o feysydd ffocws y flwyddyn, a gyhoeddwyd yn ddigon pell ymlaen llaw i sicrhau darparwyr, cydlynu clystyrau a mapio dilynant i'r CDY. Fe wnaethant gysylltu rybudd cynnar â gwell amserlennu a llai o wrthdaro, ac â mwy o hyder eu bod yn blaenoriaethu'r meysydd cywir.

Mynegodd uwch-arweinwyr barodrwydd clir i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ond awgrymodd fod pwysau cystadleuol ar amser HMS yn golygu bod y chweched diwrnod yn aml yn cael ei amsugno gan weithgaredd gofynnol neu sesiynau wedi'u trefnu'n allanol, gan gyfyngu ar le ar gyfer datblygiad ysgol gyfan mewn perthynas â themâu cenedlaethol. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi disgrifio ansicrwydd ynghylch yr hyn y dylai'r chweched diwrnod ganolbwyntio arno mewn blynyddoedd pan fydd galwadau eraill yn cynyddu a gofynnodd am gadarnhad o'i barhad i helpu i sicrhau darparwyr a chydlynu clystyrau. Mewn cyfweiliadau, gofynnodd arweinwyr ysgolion i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau mwy bwriadol ar y defnydd arfaethedig o'r chweched diwrnod, gan gynnwys disgwyliadau cliriach am y cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, agendâu enghreifftiol sy'n

dangos defnydd effeithiol, ac eglurder ynghylch a ddylid cyflwyno'r diwrnod fel un diwrnod neu fel sesiynau gwyll.

Gofynnodd rhanddeiliaid hefyd i Lywodraeth Cymru ddarparu templedi cynllunio cryno sy'n helpu ysgolion i gysylltu'r chweched diwrnod â'u rhaglen dysgu proffesiynol ehangach, gyda lle i fapio pwrpas, canlyniadau arfaethedig, dilynant a thystiolaeth o effaith, heb ychwanegu gwaith papur. Gallai templedi ac enghreifftiau byr fodelu sut mae'r chweched diwrnod yn cefnogi gwaith hirdymor ar ddatblygu'r cwricwlwm, ADY neu'r Gymraeg, gan gynnwys opsiynau ar gyfer gweithgareddau ysgol gyfan, sesiynau gwahaniaethol a gweithredu fesul cam drwy'r sesiynau gwyll.

Awgrymodd cwpl o undebau addysg y dylid adolygu'r hyfforddiant y mae'n ofynnol i ysgolion ei gwblhau a'i addasu neu ei leihau lle bo modd, gan annog Llywodraeth Cymru hefyd i amddiffyn rhyddid ysgolion i deilwra HMS i anghenion lleol. Yn ogystal, awgrymodd arweinwyr ysgolion y dylid crue hyblygrwydd o ran lle mae'r cynnwys angenrheidiol, er enghraifft blociau modiwlaid diogelu ac e-ddysgu, neu neilltuo un diwrnod i'r awdurdod lleol cyfan ar gyfer diweddariadau hanfodol fel y gall y chweched diwrnod gadw ffocws ar ddatblygiad sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, asesu, ADY a chydweithio. Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi hyn drwy nodi y gellir trefnu'r diweddariadau gofynnol y tu allan i'r 6 diwrnod lle bo hynny'n briodol a thrwy wahanu cydymffurfiaeth oddi wrth amser datblygu, gydag awdurdodau lleol yn cydlynu modiwlau a rennir i leihau dyblygu. Dylid fframio unrhyw newidiadau fel canllawiau – fel sy'n digwydd nawr – yn hytrach na gofyniad fel y gall ysgolion alinio HMS â'u CDYau a'u cyd-destun lleol.

Pwysleisiodd undebau'r gweithlu ac arweinwyr ysgolion fod angen i Lywodraeth Cymru osod disgwyliadau cliriach y dylai HMS fod yn gynhwysol o'r holl grwpiau staff, gan gynnwys CA a staff cymorth eraill, fel y gellir ymgorffori dulliau ysgol gyfan yn gyson. Fe wnaethant dynnu sylw at yr angen am ganllawiau sy'n annog cyflogwyr (awdurdodau lleol) i gynllunio ac ariannu cyfranogiad staff cymorth, i gyllidebu'n gynnar ar gyfer presenoldeb â thâl lle bo angen, ac i fabwysiadu modelau cyflawni hyblyg fel sesiynau gwahaniaethol, opsiynau tacluso ac amseroedd hygyrch. Pwysleisiodd ymatebion yr arolwg bwysigrwydd "gwybod ymhell ymlaen llaw y bydd gennym gyllideb i dalu CA i ddod i mewn." Awgrymwyd gan un ymatebydd yr arolwg y gallai Llywodraeth Cymru hyrwyddo egwyddorion dylunio cynhwysol, gan annog adrodd ar gyfranogiad yn ôl rôl mewn hunanwerthuso ysgafn, a darparu deunyddiau parod i'w defnyddio wedi'u teilwra i gefnogi rolau staff.

Roedd cydweithio hefyd yn ymddangos yn gryf yn y cyfweiliadau ag uwch arweinwyr mewn perthynas â rôl Llywodraeth Cymru. Roedd ysgolion yn ei chael hi'n anodd trefnu gweithgarwch cydweithredol ystyrion heb gydlynu allanol, yn enwedig lle roedd staffio neu ddaearyddiaeth yn creu rhwystrau. Nododd yr arweinwyr y gallai Llywodraeth Cymru annog aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol drwy hwyluso cyfleoedd cydweithredol drwy ddeunyddiau a rennir neu gyfnodau hyfforddiant cydgysylltiedig. Gallai cyrff eraill fel awdurdodau lleol gefnogi drwy drefnu sesiynau ar lefel clwstwr.

Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth Cymru gryfhau cefnogaeth drwy ei gwneud hi'n haws i ysgolion weld sut beth yw HMS effeithiol mewn perthynas â llawer o'r uchod mewn mannau eraill a dysgu o hynny. Roedd camau ymarferol yn cynnwys cyhoeddi

astudiaethau achos cryno o wahanol gyd-destunau, curadu adnoddau parod i'w defnyddio sy'n dangos dulliau effeithiol, ac annog gwerthuso cymesur fel y gellir dal mewnwelediadau effaith a'u rhannu wedyn. Gofynnodd arweinwyr hefyd am bwyntiau mynediad cliriach i rwydweithiau a deunyddiau presennol, gan gynnwys hybiau awdurdodau lleol, rhwydweithiau pwnc a chlystyrau cydweithredol, a chynnwys dwyieithog ac adnoddau ADY arbenigol. Nododd y rhai a gyfwelwyd y byddai'r deunyddiau a ddarperir a'r modelau a rennir yn ganolog yn helpu i leihau dyblygu ac alinio ymarfer gan gynnal y modd o deilwra i'r cyd-destun lleol.

Esboniodd ysgolion hefyd fod cyfyngiadau adnoddau yn rhwystro eu gallu i ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol gydag anawsterau wrth gael mynediad at arbenigedd allanol, yn enwedig hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ADY arbenigol. Yn sgil hyn, awgrymodd arweinwyr y gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl gefnogol drwy rannu deunyddiau hyfforddiant o ansawdd dda, dwyieithog, parod i'w defnyddio sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn. Er nad yw'n cael ei grybwyll mewn unrhyw gyfweiliadau, gallai hyn, a llawer o'r darpariaethau a drafodir yn yr adran hon, ddod dan gylch gwaith [Dysgu](#), y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth genedlaethol sydd newydd ei sefydlu ar gyfer ysgolion a lleoliadau a gynhelir yng Nghymru. Cyfeiriodd ymatebion yr arolwg hefyd at Hwb fel porth adnoddau pwysig ar gyfer dysgu proffesiynol, er enghraifft "Adnoddau digidol a Hwb... yn helpu i bontio'r bwlch."

Yn olaf, nododd ysgolion fod ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol yn gofyn am gydnabyddiaeth o'r cyd-destunau gwahanol y maent yn gweithredu ynddynt. Mynegodd ysgolion arbennig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg heriau penodol, gan gynnwys graddfa'r hyfforddiant sydd ei angen, cymhlethdod anghenion dysgwyr, a materion recriwtio sy'n effeithio ar fynediad at arbenigedd Cymraeg. Gallai Llywodraeth Cymru gydnabod y gwahaniaethau hyn yn fwy penodol a chynnig cymorth gwahaniaethol sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol gyd-destunau ysgol. Mae rôl hefyd i Estyn, sydd â mewnwelediad i sut beth yw dysgu proffesiynol effeithiol drwy ei weithgaredd arolygu. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai Estyn gefnogi darpariaeth HMS addas drwy rannu tystiolaeth o arferion HMS effeithiol, gosod disgwyliadau clir a chyfrannu at fwy o gysondeb a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth HMS.

4. Casgliadau

Mae'r bennod hon yn tynnu ynghyd prif ganfyddiadau'r ymchwiliad i gynllunio, defnydd ac effaith canfyddedig diwrnodau HMS yng Nghymru. Archwiliodd yr astudiaeth sut roedd diwrnodau HMS yn cael eu cynllunio a'u defnyddio ar draws gwahanol leoliadau ysgol, i ba raddau y maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol, a sut y canfuwyd eu bod yn cefnogi ymarferwyr, ysgolion a dysgwyr. Archwiliodd hefyd ffactorau sy'n hwyluso neu'n cyfyngu defnydd effeithiol o HMS, ochr yn ochr â safbwyntiau ar rôl a gwerth y chweched diwrnod HMS. Mae'r casgliadau a gyflwynir isod yn adlewyrchu tystiolaeth a gasglwyd o waith maes ansoddol ac arolwg ymarferwyr.

Defnyddio a chynllunio diwrnodau HMS

Mae ymatebion yr arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi adrodd eu bod yn defnyddio cyfuniad o ddiwrnodau HMS llawn a sesiynau gwyll. Roedd cyfran lai yn cyflawni eu hawl gyfan fel diwrnodau llawn yn unig, ac ychydig iawn oedd yn dibynnu ar sesiynau gwyll yn unig.

Disgrifiwyd bod diwrnodau llawn yn cefnogi hyfforddiant dwys, cydlyniant ysgol gyfan, cynllunio cwricwlwm di-dor a gweithgarwch cydweithredol. Defnyddiwyd sesiynau gwyll i ddosbarthu dysgu proffesiynol drwy gydol y flwyddyn i wneud y mwyaf o amser cynhyrchol ac i ddarparu ar gyfer staff rhan amser. Roedd heriau sy'n gysylltiedig â defnydd yn y gwyll yn cynnwys presenoldeb amrywiol, blinder ar ddiwedd y diwrnod ysgol a llai o gyfleoedd ar gyfer cynllunio cydweithredol parhaus.

Yn y flwyddyn academaidd 2025 i 2026, roedd cynnwys HMS yn canolbwyntio'n bennaf ar ddylunio cwricwlwm ac MDaPh, diogelu, cynhwysiant ADY ac CDU a chydweithio mewn clwstwr.

Defnyddiwyd y chweched diwrnod HMS ychwanegol mewn ffyrdd tebyg i'r pum niwrnod craidd. Mewn llawer o ysgolion, cafodd ei ddisgrifio fel ffordd o alluogi gwaith diwygio'r cwricwlwm, datblygu ADY neu gwblhau diweddariadau gorfodol canfyddedig heb ddisodli blaenoriaethau gwella lefel ysgol ehangach.

Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn dyrannu o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i un diwrnod llawn i'r hyn a ystyriwyd yn eang fel gofynion hyfforddiant gorfodol. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gorfodi unrhyw gynnwys HMS penodol, cyfeiriodd arweinwyr yn aml at ofynion diogelu, iechyd a diogelwch a gofynion cydymffurfio cysylltiedig fel rhai na ellir eu trafod oherwydd disgwyliadau awdurdodau lleol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ysgolion yn mabwysiadu dull hyblyg ac ymreolaethol i raddau helaeth mewn perthynas â defnyddio a chynllunio eu diwrnodau HMS. Cafodd penderfyniadau ynghylch cynnwys eu llunio'n bennaf gan flaenoriaethau a nodir yn y CDYau, ochr yn ochr ag ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a disgwyliadau awdurdodau lleol, gydag ysgolion arbennig yn adrodd bod gofynion hyfforddiant ymddygiad, meddygol a chodi a chario ychwanegol yn chwarae rôl bellach. Defnyddir adborth staff,

hunanwerthuso a thrafodaethau adolygu proffesiynol hefyd i nodi cryfderau a bylchau mewn arferion.

Er nad oedd ysgolion a gymerodd ran mewn gwaith maes yn cyfeirio at y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) yn uniongyrchol, roedd prosesau cynllunio a ddisgrifiwyd gan arweinwyr yn adlewyrchu ei egwyddorion, gan gynnwys defnyddio arbenigedd mewnol, ymholiad cydweithredol ac aliniad ag anghenion ysgol a nodwyd.

Aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol a nodau polisi

Mae tystiolaeth ar draws lleoliadau yn dangos bod llawer o ysgolion yn ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth gynllunio diwrnodau HMS. Cyflawnwyd aliniad yn fwyaf cyffredin drwy integreiddio o fewn CDYau, yn hytrach na thrwy sesiynau annibynnol wedi'u labelu'n benodol fel blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae CiG yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio HMS gyda mwyafrif yn awgrymu ei fod yn flaenoriaeth bwysig. Dywedodd uwch-arweinwyr eu bod wedi neilltuo amser sylweddol i ddylunio'r cwricwlwm, addysgeg, dilyniant a diwygio cymwysterau tra bod y rhai mewn ysgolion uwchradd yn arbennig yn tynnu sylw at waith sy'n gysylltiedig â manylebau TGAU newydd.

Adroddwyd hefyd bod diwygiadau ADY yn dylanwadu ar gynllunio HMS, yn enwedig mewn ysgolion arbennig. Disgrifiodd ysgolion ddefnyddio HMS i ddatblygu dealltwriaeth o CDUau, dulliau asesu, strategaethau cyfathrebu a gwahanredu.

Mae themâu sy'n gysylltiedig â thegwch, gan gynnwys ymddygiad, llesiant, presenoldeb ac arferion sy'n ystyriol o drawma, wedi'u hymgorffori yn y ddarpariaeth HMS mewn llawer o ysgolion. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn adrodd eu bod yn dod â siaradwyr arbenigol allanol i mewn, yn aml yn ystod diwrnodau clwstwr i adnabod rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr yn well ac addasu eu harferion yn unol â hynny.

Roedd cefnogaeth ar gyfer Cymraeg 2050 drwy HMS yn amrywio rhwng lleoliadau. Adroddodd ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnydd mwy strwythuredig o HMS i gryfhau datblygiad iaith a hunaniaeth ddiwylliannol, wrth i ysgolion cyfrwng Saesneg ddisgrifio sylw mwy cyfyngedig.

Fodd bynnag, nododd arweinwyr ar draws lleoliadau, ac yn enwedig mewn ysgolion arbennig, fod ehangder y disgwyliadau cenedlaethol, ynghyd â chyfaint yr hyfforddiant gorfodol canfyddedig, yn cyfyngu ar y graddau y gellid mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn fanwl o fewn yr amser HMS sydd ar gael.

Disgrifiwyd y chweched diwrnod HMS fel un sy'n gwella capasiti i fynd i'r afael â blaenoriaethau diwygio cenedlaethol, er mewn rhai lleoliadau uwchradd roedd ei ddefnydd wedi'i gyfyngu gan hyfforddiant diwygio cymwysterau CBAC a oedd wedi'i drefnu'n allanol. Mewn mannau eraill, adroddodd ysgolion ddefnydd mwy hyblyg o'r chweched diwrnod HMS, gan gynnwys cydweithio mewn clwstwr ar y CiG. Disgrifiodd arweinwyr ysgolion arbennig y diwrnod ychwanegol fel un sy'm arbennig o bwysig i gynnal amser ar gyfer gwaith cwricwlwm ac ADY ochr yn ochr â chyfeintiau uwch o hyfforddiant angenrheidiol.

Cynhwysiant a mynediad i bob grŵp staff

Nod pob ysgol oedd cynnwys CA mewn HMS, gyda llawer yn dweud bod ganddynt ymrwymiad cryf i sicrhau bod yr holl staff addysgu yn cymryd rhan. Roedd tystiolaeth yr arolwg hefyd yn dangos presenoldeb uchel ymhlith CA gyda bron pob un yn nodi eu bod yn mynychu HMS.

Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ran pa mor bell y cafodd cynnwys HMS ei deilwra i rolau CA yn ogystal â heriau wrth sicrhau y gellir gwneud hyn. Lle'r oedd sesiynau yn cael eu hystyried fel rhai a oedd yn canolbwyntio fwy ar athrawon, adroddwyd y gallai CA deimlo'n llai ymgysylltiedig. Gall cyfranogiad CA hefyd gael ei effeithio lle nad yw amser HMS wedi'i gynnwys o fewn cytundebau CA, neu le mae cyfrifoldebau gofal plant yn gwneud presenoldeb yn fwy anodd.

Roedd amrywiaeth hefyd yn y graddau y mae blaenoriaethau datblygu ymarferwyr unigol eraill yn llywio cynllunio HMS. Mewn rhai ysgolion, roedd prosesau adolygu datblygiad proffesiynol ac adborth staff yn llunio'r cynnwys. Mewn ysgolion eraill, roedd cynllunio yn cael ei ysgogi'n bennaf gan flaenoriaethau CDY, gydag anghenion datblygu unigol yn cael eu hystyried y tu allan i amser HMS. Lle nad yw hyfforddiant mor berthnasol i'w rôl a'u hanghenion, roedd hefyd yn gysylltiedig â llai o ymgysylltu.

Cydweithio a gweithio mewn clwstwr

Defnyddir HMS yn bennaf at ddibenion cydweithio mewnol o fewn lleoliadau ysgol, gan gynnwys ar gyfer cymedroli, cynllunio adrannol a datblygu cwricwlwm ar y cyd ac fe'i disgrifiwyd yn gyffredin fel rhan annatod o ddarpariaeth HMS. Tynnodd rhai ar arbenigedd mewnol i arwain hyfforddiant, a daeth nifer fach â mewnbwn allanol wedi'i dargedu lle'r oedd angen gwybodaeth arbenigol.

Mewn ardaloedd sydd â rhwydweithiau clwstwr sefydledig, mae'n gyffredin i un diwrnod gael ei gadw'n benodol ar gyfer gweithgareddau cydweithio ag ysgolion eraill. Yn yr achosion hyn, adroddodd uwch-arweinwyr eu bod yn defnyddio diwrnodau HMS ar gyfer cynllunio ac alinio cwricwlwm traws-ysgol, addysgeg ac asesu drwy ddysgu proffesiynol a rennir.

Lle mae gweithio mewn clwstwr yn llai datblygedig, mae cydweithio yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig ac wedi'i lunio gan gyfyngiadau ymarferol fel capasiti, sefydlogrwydd arweinyddiaeth, a'r gallu i alinio blaenoriaethau ar draws ysgolion. Mae'r gweithgaredd yn aml wedi'i dargedu neu'n ysbeidiol, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol, grwpiau staff, neu gydlynw lle bo hynny'n bosibl.

Nododd rhai ysgolion heriau wrth weithredu clwstwr seiliedig ar HMS sy'n cynnwys anhawster cytuno ar flaenoriaethau a rennir ar gyfer y dydd, cyfyngiadau amseru, gwybodaeth gyfyngedig o'r hyn y mae ysgolion eraill yn ei wneud yn dda, anawsterau rhyddhau athrawon i ymweld ag ysgolion eraill, trosiant uwch-arweinwyr, a llwyth gwaith gweinyddol.

Roedd y defnydd o'r chweched diwrnod HMS ar gyfer cydweithio mewn clwstwr yn gyfyngedig ac yn bennaf digwyddodd lle sefydlwyd rhwydweithiau clwstwr. Yn yr achosion

hyn, roedd yn cefnogi gwaith cynllunio cwricwlwm a dilyniant ar y cyd ar draws cyfnodau. Mewn mannau eraill, fe'i defnyddiwyd ar gyfer blaenoriaethau lefel ysgol.

Llywodraethu a chyfathrebu

Disgrifiodd uwch-arweinwyr ystod o ddulliau o gyfathrebu gweithgaredd HMS i gyrff llywodraethu, gan gynnwys mecanweithiau adrodd ffurfiol. Gwahoddwyd llywodraethwyr yn aml i fynychu sesiynau HMS perthnasol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau diogelu neu strategol, er bod presenoldeb yn gyfyngedig. Roedd safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd cyfathrebu â llywodraethwyr yn gymysg, gyda rhai arweinwyr yn disgrifio prosesau adrodd fel rhai gweithdrefnol. Nododd nifer fach hefyd heriau wrth ymgysylltu llywodraethwyr mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm lle'r oedd angen gwybodaeth bynciol gyfoes.

Mae cyfathrebu y tu hwnt i gyrff llywodraethu hefyd yn cyflwyno heriau. Adroddodd ysgolion bwysau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu trefniadau HMS i rieni, yn enwedig pan newidiodd dyddiadau diwrnodau HMS ar ôl cyhoeddi neu ar rybudd cymharol fyr.

Disgrifiwyd yr ymgysylltu ag awdurdodau lleol fel y ymgysylltiad prin neu anghyson, gyda rhai ysgolion yn adrodd am gyfathrebu cyfyngedig neu aneglur ynghylch cynllunio HMS. Mewn cyferbyniad, disgrifiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol gyfathrebu mwy rheolaidd ag ysgolion ar flaenoriaethau dysgu proffesiynol, gan gynnwys diogelu, diwygio ADY a datblygu cwricwlwm, gan awgrymu rhywfaint o anghysondeb rhwng canfyddiadau awdurdodau lleol o gyfranogiad a phrofiad ysgolion o gynllunio HMS.

Effaith ar ymarferwyr ac ysgolion

Yn gyffredinol, canfuwyd bod diwrnodau HMS yn cael effaith gadarnhaol ar ymarferwyr. Dangosodd yr arolwg fod mwyafrif clir o ymarferwyr yn credu bod HMS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u datblygiad proffesiynol a'u harferion yn yr ystafell ddosbarth.

Adroddwyd bod effeithiau ar eu cryfaf lle mae sesiynau wedi'u cysylltu'n glir ag arferion ac wedi'u hatgyfnerthu drwy weithgarwch dilynol. Pan oedd HMS yn cael ei ystyried yn rhy gyffredinol neu ddim yn ddigon perthnasol, disgrifiodd ymatebwyr yr effaith yn fwy cyfyngedig.

Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn dangos effeithiau sy'n gysylltiedig â llesiant ar rai ymarferwyr. Adroddodd rhai am fwy o hyder a llai o straen lle'r oedd HMS yn darparu arweiniad clir a chefnogaeth ymarferol, wrth i eraill werthfawrogi sesiynau diwrnod llawn ar gyfer myfyrion a thrafod.

Mae'r canfyddiadau'n dangos y gall gweithgarwch HMS hefyd gyfrannu at ddatblygiad ysgolion drwy ddarparu cyfleoedd strwythuredig hanfodol i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau ysgol ymhlith staff a grwpiau staff. Maent yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r CDY, gan helpu staff i weld sut mae'n trosi i'r ystafell ddosbarth a sicrhau bod yr holl staff yn derbyn negeseuon cyson am argymhellion arolygiad.

Disgrifiwyd HMS ar ei fwyaf effeithiol o ran cefnogi datblygiad ysgolion pan oedd o ansawdd uchel, wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau ysgol ac wedi'i atgyfnerthu drwy weithgarwch dilynol.

Nid oedd y chweched diwrnod HMS yn gysylltiedig ag effeithiau gwahanol iawn, ond fe'i disgrifiwyd yn eang fel ffordd o gryfhau gallu ysgolion i wireddu'r manteision sydd fel arfer yn gysylltiedig â HMS drwy ddarparu amser neilltuedig ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Effaith ar ddysgwyr a chanlyniadau ehangach

Yn gyffredinol, dangosodd ymatebion yr arolwg a thystiolaeth o gyfweiliadau fod arweinwyr ac ymarferwyr yn ystyried bod HMS yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau dysgwyr. Adroddodd ysgolion eu bod yn asesu ac yn arsylwi effaith drwy brosesau monitro fel data cynnydd, logiau ymddygiad, presenoldeb, arsylwadau o ymgysylltu a myfyrio ymarferwyr yn hytrach na systemau gwerthuso pwrpasol. Fodd bynnag, disgrifiwyd yr effeithiau hyn fel rhai anuniongyrchol ac anodd eu hynysu rhag dylanwad ffactorau perthnasol eraill.

Disgwylir i effeithiau ar ddysgwyr ddigwydd yn dilyn newidiadau yng ngwybodaeth ac arferion ymarferwyr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod yna dystiolaeth o well ansawdd o addysgu, cydlyniant cwricwlwm cryfach, cysondeb ar draws rolau staff, a mwy o hyder gan staff ac fe ystyriwyd pob un o'r rhain yn llwybrau pwysig y mae HMS yn cefnogi dysgwyr drwyddynt ac yn gallu helpu i wella eu canlyniadau.

Nid oedd y chweched diwrnod HMS yn gysylltiedig ag unrhyw effeithiau ychwanegol, gydag uwch-arweinwyr hefyd yn tynnu sylw at yr her o brofi ei gyfraniad. Fodd bynnag, cafodd ei ddisgrifio fel un sy'n galluogi ysgolion i gynnal gwelliannau mewn dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.

Barn ar yr angen am y chweched diwrnod HMS

Roedd yna gefnogaeth gref i barhad y chweched diwrnod HMS. Mae mwyafrif yn credu ei fod yn galluogi gwell cefnogaeth i ddysgu proffesiynol ac yn dweud eu bod o blaid ei gadw.

Dywedodd arweinwyr ar draws lleoliadau bod y chweched diwrnod yn hanfodol wrth reoli gofynion hyfforddiant gorfodol canfyddedig a chadw amser ar gyfer cynllunio cwricwlwm a blaenoriaethau eraill.

Nododd ymatebwyr y byddai cael gwared ar y chweched diwrnod yn lleihau'r gallu i fynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn amser dysgu proffesiynol wedi'i neilltuo a byddai'n cyfyngu ar gynllunio ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn barhaus, gan gynyddu'r pwysau ar staff sy'n gweithredu o fewn cyfyngiadau amser tynn.

Hwyluswyr a rhwystrau

Ymhlith yr hwyluswyr ar gyfer defnyddio HMS yn effeithiol mae: aliniad â'r CDYau a chylchoedd sicrhau ansawdd, cyfleoedd ar gyfer cydweithio o fewn clystyrau ac ar draws cyfnodau, defnydd effeithiol o arbenigedd mewnol, paratoi cynnar a chynllunio strategol a

dilyniannu drwy gydol y flwyddyn, a'r amser ychwanegol wedi'i neilltuo yn sgil y chweched diwrnod.

Roedd rhwystrau i ddefnydd effeithiol yn cynnwys pwysau llwyth gwaith ac amser cynllunio cyfyngedig, cyfaint yr hyfforddiant gorfodol canfyddedig, diffyg cyllid a mynediad at arbenigedd allanol, cynnwys staff cymorth yn anghyfartal oherwydd trefniadau cytundebol, a heriau amserlennu neu gydlynw yn sgil digwyddiadau cenedlaethol ac argaeledd darparwyr.

Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

Cafwyd adborth gan gyfranogwyr mewn perthynas â chefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei chynnig, yn amrywio o fynegi cliriach pwrpas arfaethedig y chweched diwrnod a blaenoriaethau cenedlaethol a chyfathrebu disgwyliadau yn gynharach, i hyrwyddo egwyddorion dylunio cynhwysol a darparu canllawiau a deunyddiau hyfforddiant o ansawdd dda sy'n galluogi defnydd mwy effeithiol o amser HMS, yn enwedig lle mae arbenigedd arbenigol yn gyfyngedig.

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o rôl i Estyn o ran rhannu tystiolaeth o arferion dysgu proffesiynol effeithiol a chefnogi mwy o gysondeb yn y disgwyliadau.

5. Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn tynnu ar dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymchwiliad hwn a'u bwriad yw llywio polisi ac arferion yn y dyfodol sy'n ymwneud â darpariaeth HMS.

Mae cefnogaeth gref o hyd i barhad y chweched diwrnod HMS.

1. Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r chweched diwrnod HMS fel amser dysgu proffesiynol wedi'i neilltuo.

Mae'r ymchwiliad yn tynnu sylw at yr amrywiaeth yn y ffordd y defnyddir y chweched diwrnod HMS, sydd wedi'i lunio gan amgylchiadau lleol, gofynion hyfforddiant a ffactorau allanol. Er bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r amser ychwanegol, gall ansicrwydd ynglŷn â'i ffocws bwriadedig gyfyngu ar ei effaith bosibl.

2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o eglurder ynglŷn â phwerau bwriadedig y chweched diwrnod, ochr yn ochr ag enghreifftiau darluniadol o ddefnydd effeithiol er mwyn cefnogi defnydd mwy cyson ac effeithiol ar draws lleoliadau a chaniatáu hyblygrwydd wrth gyflawni.

Mae tystiolaeth ar draws lleoliadau yn dangos bod ysgolion yn wynebu pwysau sylweddol wrth gydbwysu'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn ofynion hyfforddiant gorfodol gydag amser ar gyfer dysgu proffesiynol datblygiadol. Mae gan hyn oblygiadau ar y graddau y gellir mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn fanwl drwy'r nifer presennol o ddiwrnodau HMS.

3. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu disgwyliadau cenedlaethol cliriach ar gyfer HMS, gyda chyfathrebu themâu blaenoriaeth yn gynharach o fewn y cylch cynllunio blynyddol.

Gwelwyd amrywiad mewn mynediad at HMS ar gyfer gwahanol grwpiau staff, yn enwedig staff cymorth. Er bod llawer o ysgolion yn anelu at gynnwys yr holl staff, caiff ymgysylltu ei lunio gan drefniadau cyflogaeth a modelau cyflawni lleol.

4. Gallai awdurdodau lleol ac ysgolion adolygu sut y gall cynllunio a chyflawni HMS gefnogi cyfranogiad cynhwysol, yn enwedig ar gyfer staff cymorth, gan ystyried trefniadau cytundebol a chyd-destunau'r gweithlu lleol.

Roedd cydweithio ar draws ysgolion yn cael ei ystyried yn fuddiol, ond yn anodd ei gynnal heb gydlynw a chefnogaeth ymarferol. Mae tystiolaeth yn y gwaith ymchwiliad hwn yn awgrymu bod gweithgarwch sy'n seiliedig ar glwstwr wedi'i drefnu'n dda, mae'n cefnogi dysgu a rennir ac aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol, gefnogi'r amodau sy'n galluogi cydweithio ar lefel clwstwr, gan gynnwys drwy gyfnodau hyfforddiant cydgysylltiedig, rhannu adnoddau neu weithgareddau rhanbarthol.
6. Gallai awdurdodau lleol chwarae rôl gydlynw gryfach wrth gefnogi cydweithio a helpu ysgolion i ddehongli a chymhwyso disgwyliadau cenedlaethol o fewn cyd-destunau lleol.

Nodwyd y diffyg mynediad at adnoddau dysgu proffesiynol o ansawdd dda fel cyfyngiad, yn enwedig lle mae angen darpariaeth arbenigol neu gyfrwng Cymraeg. Adroddodd ysgolion heriau wrth ddod o hyd i arbenigedd allanol addas a deunyddiau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

7. Gallai Dysgu guradu a chyfeirio at ddeunyddiau dysgu proffesiynol o ansawdd dda, sy'n ddwyieithog ac yn barod i'w defnyddio sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol i'w defnyddio ar draws gwahanol gyd-destunau ysgolion a rolau staff a gallai gynnwys gweithgareddau strwythuredig, astudiaethau achos, fideos a chanllawiau hwyluso i gefnogi defnydd hyblyg o fewn ysgolion.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod effeithiolrwydd HMS wedi'i gysylltu'n agos ag ansawdd y cynllunio, perthnasedd i rolau ymarferwyr a chyfleoedd ar gyfer dilyniant.

8. Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi ysgolion i gryfhau aliniad rhwng HMS, CDYau a chylchoedd dysgu proffesiynol parhaus, er enghraifft drwy demptedi cynllunio ysgafn neu enghreifftiau darluniadol.


Mae lle hefyd i Lywodraeth Cymru gefnogi ysgolion i fynegi a dangos effaith HMS yn gliriach, yn enwedig mewn perthynas â'r chweched diwrnod HMS.

9. Gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu neu gomisiynu dulliau cymesur, ysgafn i gefnogi ysgolion i fynegi a dangos effaith HMS ar arferion proffesiynol a datblygiad ysgolion.

Yn olaf, mae'r ymchwil yn tynnu sylw at werth mwy o dryloywder ar lefel system a dysgu a rennir ynglŷn ag arferion HMS effeithiol.

10. Gallai Estyn, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill y system, gefnogi dysgu ar draws y system gyfan drwy rannu tystiolaeth o ddulliau dysgu proffesiynol effeithiol a nodwyd drwy weithgareddau arolygu ac ymgysylltu.

Atodiad A: Model Rhesymeg HMS



Atodiad B: Cwestiynau ymchwil

Sut mae ysgolion yn amserlennu eu hawl HMS?

Sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio gan ysgolion a pha gynnwys yr ymdrinnir ag ef?

Faint o ddiwrnodau HMS sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion i fynd i'r afael â hyfforddiant gorfodol?

Sut mae cynnwys diwrnodau HMS wedi'i gynllunio? A yw'r dysgu proffesiynol a ddarperir yn cyd-fynd ag egwyddorion dylunio'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol?

A yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried wrth gynllunio cynnwys?

A ydy awdurdodau lleol yn gosod unrhyw ofynion ar y defnydd o ddiwrnodau HMS?

A yw diwrnodau HMS yn effeithiol wrth gefnogi ymarferwyr i gyflawni blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru (Cwricwlwm i Gymru, diwygiadau ADY, tegwch ac ati)?

A yw ysgolion yn defnyddio amser HMS i gefnogi nodau Cymraeg 2050 a/neu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr iaith yn eu hysgol a pha mor effeithiol mae hyn wedi bod?

A yw ysgolion yn cynnwys cymorthyddion addysgu mewn dyddiau HMS? Os felly, sut?

A yw ysgolion yn defnyddio diwrnodau HMS i weithio ar y cyd?

Sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio gan ysgolion i gefnogi cydweithio a gweithio mewn clwstwr?

Sut mae gweithgarwch HMS yn cael ei adrodd i gyrff llywodraethu ac a ydynt yn gallu mynychu?

Pa effeithiau mae diwrnodau HMS yn eu cael ar wybodaeth ac arferion ymarferwyr?

Pa effeithiau mae diwrnodau HMS yn eu cael ar lesiant ymarferwyr?

A oes unrhyw effeithiau eraill mae diwrnodau HMS yn eu cael ar ymarferwyr addysg?

Pa effeithiau mae diwrnodau HMS yn eu cael ar ddatblygiad ysgolion?

Beth yw effaith diwrnodau HMS ar ganlyniadau dysgwyr?

Pa farn sydd gan ymarferwyr ar barhad y diwrnod HMS ychwanegol?

Pe bai'r diwrnod HMS ychwanegol yn dod i ben, beth fyddai'r effaith ar ymarferwyr a'u gallu i gefnogi i gyflawni blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru?

A oes unrhyw ffactorau hwyluso / rhwystro mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS?

A oes unrhyw ffactorau hwyluso / rhwystro mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o'r chweched diwrnod HMS?

Ym mha ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad a chymorth i helpu ysgolion i sicrhau bod darpariaeth HMS yn cael ei gwneud yn fwy addas, digonol ac effeithiol?

Sut allai Llywodraeth Cymru annog ysgolion i ymgorffori blaenoriaethau?

Atodiad C: Defnydd o'r diwrnod HMS – astudiaethau achos ysgolion

Ysgol Y Deri

Math o ysgol: Ysgol arbennig

Awdurdod lleol: Bro Morgannwg

Cyfrwng iaith: Saesneg

Nifer y dysgwyr: oddeutu 600

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 38%

Mae Ysgol y Deri yn ysgol arbennig fawr ym Mro Morgannwg, sy'n cefnogi dysgwyr gydag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Mae graddfa a chymhlethdod yr ysgol yn gofyn am ddarpariaeth HMS sy'n diwallu anghenion dysgu proffesiynol staff ar draws pob lefel.

Mae diwrnodau HMS wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn academiaidd gan ddefnyddio cymysgedd o ddiwrnodau llawn, diwrnodau HMS clwstwr a sesiynau gwyll. Mae un diwrnod HMS ar ddiwedd tymor yr haf yn cefnogi pontio disgyblion, symudiadau ystafell ddosbarth a pharatoi ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf, gan adlewyrchu'r lefel uchel o symudiad disgyblion bob blwyddyn a'r angen i baru dosbarthiadau â mannau arbenigol.

Mae cynnwys y diwrnodau HMS yn taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau ysgol a pholisi cenedlaethol. Mae'r themâu craidd yn cynnwys Cwricwlwm i Gymru ac addysgeg, diogelu, rheoli ymddygiad cadarnhaol, llesiant staff, a hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig ag anghenion meddygol a chorfforol disgyblion, megis codi a chario, bwydo, meddyginiaeth ac ymwybyddiaeth o epilepsi. Defnyddir amser HMS hefyd i gefnogi arfarniadau a dysgu proffesiynol sy'n benodol i rôl ar gyfer staff cymorth.

Tynnwyd sylw at "ddiwrnod 'Sensory Smart'" ar draws yr ysgol gyfan fel enghraifft arbennig o effeithiol o ddarpariaeth HMS. Roedd yr hyfforddiant hwn yn gloywi gwybodaeth bresennol staff profiadol ac yn cyflwyno dulliau newydd i eraill, gan arfogi athrawon ag offer ymarferol i asesu anghenion synhwyraidd a chynllunio cymorth priodol. Adroddodd arweinwyr fod hyn yn cefnogi arferion dosbarth mwy cyson ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymgysylltiad disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu.

Mae darpariaeth HMS fel arfer yn cyfuno sesiynau tîm staff cyfan â hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau o staff penodol, er enghraifft, cymorthyddion addysgu neu adrannau pwnc. Nododd arweinwyr yr her o sicrhau dysgu proffesiynol ystyrlon i weithlu o dros 400 o staff, yn enwedig yng nghyd-destun ehangu parhaus. Mae diwrnodau HMS yn cael eu hategu gan sesiynau hyfforddiant bach rheolaidd, HMS wythnosol i athrawon a rhaglenni sefydlu strwythuredig.

Nodwyd dull yr ysgol o gydbwyso hyfforddiant ysgol gyfan â datblygiad proffesiynol wedi'i dargedu fel cryfder pwysig. Ymhlith y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno mae cryfhau prosesau ar gyfer casglu adborth gan staff yn dilyn gweithgareddau HMS a pharhau i fireinio cynllunio er mwyn gwneud y mwyaf o effaith yr amser HMS sydd ar gael.

Ysgol Uwchradd Caergybi

Math o ysgol: Ysgol uwchradd

Awdurdod lleol: Ynys Môn

Cyfrwng iaith: Dwyieithog

Nifer y dysgwyr: oddeutu 850

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 24%

Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol uwchradd ar Ynys Môn sy'n gwasanaethu oddeutu 850 o ddysgwyr. Mae ffocws, amseru a phwrpas ei darpariaeth HMS wedi'u llunio gan ffocws cryf ar ymateb i argymhellion Estyn ar ôl arolygiad, gyda phwyslais ar ymgorffori'r CDY yn gyson ar draws yr ysgol.

Caiff diwrnodau HMS eu trefnu ar draws y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio cyfuniad o ddiwrnodau llawn a sesiynau gwyll. Defnyddir dau ddiwrnod HMS ar ddechrau tymor yr hydref i osod disgwyliadau a darparu hyfforddiant cychwynnol i gefnogi blaenoriaethau gwella. Mae sesiynau tymor y gwanwyn yn cefnogi cydweithio ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws yr awdurdod lleol, yn enwedig o amgylch blaenoriaethau a rennir fel sgiliau darllen a ffoneg, ac yn rhoi amser i adrannau ymateb i adborth gwerthuso. Defnyddir diwrnod HMS arall yn nhymor yr haf i adolygu cynnydd a llunio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.

Mae darpariaeth HMS wedi canolbwyntio'n bennaf ar addysgu a dysgu, llythrennedd a rhifedd, a gwella sgiliau darllen, gyda sylw arbennig i ddilyniant o Flynyddoedd 5 a 6 i Flynyddoedd 7 ac 8. Roedd y themâu yr ymdrinniwyd â hwy rhwng 2024 a 2025 yn cynnwys diogelu, sgiliau darllen uwch, addysgeg a chwestiynu effeithiol, asesu ar gyfer dysgu, llesiant ac arferion sy'n ystyriol o drawma, gwerthuso ac atebolrwydd, a datblygu llafaredd. Pennwyd y blaenoriaethau hyn drwy argymhellion Estyn, disgwyliadau polisi cenedlaethol a phrosesau hunanwerthuso mewnol.

Tynnwyd sylw at y rhaglen "Meini Prawf Llwyddiant i gael Effaith" fel gweithgaredd HMS arbennig o effeithiol. Wedi'i chyflwyno drwy ddull seiliedig ar ddewislen wedi'i chyd-gynllunio gyda Phenaethiaid Adrannau, dewisodd staff y sesiynau mwyaf perthnasol i'w rôl a'u blaenoriaethau adrannol. Roedd amser pwrpasol yn galluogi adrannau i gymhwyso dysgu ar unwaith a rhannu deunyddiau, gan gefnogi mwy o gysondeb mewn disgwyliadau, nodau dysgu cliriach ac adborth mwy pwrpasol sy'n gysylltiedig â chynnydd disgyblion.

Cryfder pwysig dull HMS yr ysgol yw ei diwylliant o gydweithio traws-ysgol ar draws ysgolion uwchradd Ynys Môn. Mae perthnasoedd dibynadwy yn cefnogi datblygiad proffesiynol ar y cyd, gwerthuso a rennir a her cyfoedion. Mae'r datblygiadau arfaethedig yn cynnwys ymestyn hyfforddiant gwerthuso ac adborth tebyg i Estyn ar gyfer arweinwyr canol a chreu cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio â chymheiriaid i gryfhau gallu i arwain a chefnogi gwelliant cynaliadwy.

Ysgol Gynradd Glyncollen

Math o ysgol: Ysgol Gynradd

Awdurdod lleol: Dinas a Sir Abertawe

Cyfrwng iaith: Saesneg

Nifer y dysgwyr: oddeutu 180

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 11%

Mae Ysgol Gynradd Glyncollen yn ysgol gynradd fach cyfrwng Saesneg yn Abertawe sy'n gwasanaethu oddeutu 180 o ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth HMS wedi'i alinio'n agos â CDY yr ysgol ac mae wedi'i lunio gan hunanwerthuso ac argymhellion yn dilyn arolygiad gan Estyn ym mis Mehefin 2024.

Caiff diwrnodau HMS eu cyflwyno drwy gyfuniad hyblyg o ddiwrnodau llawn a sesiynau gwyll drwy gydol y flwyddyn academaidd. Caiff tri diwrnod llawn eu trefnu ar ddechrau neu ddiwedd y tymor, gydag un diwrnod llawn ychwanegol yn ystod y tymor. Defnyddir sesiynau gwyll i ddarparu cyfwerth â dau ddiwrnod HMS arall. Mae penderfyniadau ynglŷn ag amseru a fformat yn cael eu dylanwadu gan ystyriaethau llwyth gwaith staff, blaenoriaethau gwella ysgolion ac argaeledd darparwyr allanol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r holl ddarpariaeth HMS, gyda ffocws cryf ar addysgeg ac asesu. Ymhlith y themâu pwysig yn 2024 a 2025 oedd dysgu yn yr awyr agored, datblygu annibyniaeth dysgwyr, addysgeg mathemateg, egwyddorion dilyniant ac asesu, dysgu digidol, a rhannu arferion effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Cafodd y blaenoriaethau hyn eu llywio drwy hunanwerthuso mewnol, argymhellion Estyn, cymryd rhan mewn sgysiau rhwydwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a thrafodaethau ar lefel clwstwr dan arweiniad staff uwch a staff ADY.

Nodwyd bod defnyddio sesiynau gwyll ar gyfer cyfres o ddarpariaeth addysgeg mathemateg yn enghraifft arbennig o effeithiol o ddarpariaeth HMS. Wedi'i gyflwyno dros ddwy sesiwn, roedd y dull hwn yn galluogi staff i roi strategaethau dan bawf yn eu hystafelloedd dosbarth rhwng y sesiynau, myfyrio ar arferion a dychwelyd gyda chwestiynau pellach. Gweithiodd staff ar y cyd i ddatblygu waliau gwaith mathemateg, rhannu adnoddau a chefnogi ei gilydd i weithredu newidiadau. Adroddwyd bod hyn wedi arwain at fwy o gysondeb ar draws yr ysgol a gwell agweddau gan ddisgyblion tuag at fathemateg, gyda dysgwyr yn gallu mynegi sut roedd adnoddau'r ystafell ddosbarth a chymorth oedolion yn helpu eu dysgu.

Mae darpariaeth HMS yn cynnwys pob grŵp staff, gydag athrawon, cymorthyddion addysgu, staff gweinyddol ac uwch-arweinwyr yn cymryd rhan gyda'i gilydd yn y rhan fwyaf o sesiynau. Anogir staff i arwain a rhannu dysgu, gyda chyfleoedd ar gyfer sesiynau rôl benodol neu wedi'u targedu lle bo hynny'n briodol. Nododd arweinwyr yr hyblygrwydd, y sylw i lesiant staff a'r defnydd o sesiynau gwyll i gefnogi gweithredu a myfyrio fel cryfderau pwysig. Mae'r datblygiadau sydd wedi'u cynllunio yn cynnwys parhau i gydbwyso diwrnodau llawn a sesiynau gwyll, galluogi staff i ymweld â lleoliadau eraill fel rhan o'u dysgu proffesiynol, a chynnal mynediad at arbenigedd allanol heb gostau cyflenwi ychwanegol.

Ysgol John Bright

Math o ysgol: Ysgol uwchradd

Awdurdod lleol: Conwy

Cyfrwng iaith: Dwyieithog

Nifer y dysgwyr: oddeutu 1,100

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 18%

Mae Ysgol John Bright yn ysgol uwchradd fawr yng Nghonwy sy'n gwasanaethu oddeutu 1,100 o ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth HMS yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu ysgol ac wedi'i lunio gan brosesau sicrhau ansawdd mewnol, adborth gan arweinwyr canol a staff, a blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys argymhellion Estyn.

Mae diwrnodau HMS wedi'u trefnu'n hyblyg drwy gydol y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio cyfuniad o ddiwrnodau llawn a sesiynau gwyll. Mae amseru yn cyd-fynd â rhythm y flwyddyn ysgol uwchradd, gyda sesiynau ar ddechrau tymor yr hydref yn cael eu defnyddio i sefydlu blaenoriaethau ac ymgorffori hyfforddiant pwysig, a dyddiau diweddarach yn cefnogi gwerthuso a chynllunio'r cwricwlwm. Mae amser sesiynau HMS gwyll yn cael ei ddosbarthu gan gyfadrannau i ymateb i anghenion pwnc penodol.

Roedd darpariaeth HMS yn 2024 i 2025 yn canolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, iechyd a llesiant (gan gynnwys [KiVa](#) sef y dull gweithredu ysgol gyfan o atal bwlio), rheoli ymddygiad, marcio sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a chwestiynu effeithiol. Cafodd blaenoriaethau eu nodi drwy gynllunio datblygiad yr ysgol, canfyddiadau sicrhau ansawdd ac adborth arweinwyr canol.

Tynnwyd sylw at fodel HMS yn seiliedig ar ddewislen, lle mae staff yn dewis o ystod o sesiynau wedi'u targedu, fel dull arbennig o effeithiol. Gallai staff ddewis o blith ystod o sesiynau sy'n canolbwyntio ar ADY, asesu, cynllunio'r cwricwlwm a strategaethau addysgu a dysgu, gan alluogi'r ddarpariaeth i gael ei theilwra i rolau ac anghenion staff. Adroddodd arweinwyr ymgysylltiad cryf, gyda chefnogaeth gan bwyslais yr ysgol ar rannu arferion effeithiol sefydledig yn seiliedig ar arbenigedd mewnol.

Mae darpariaeth HMS yn cynnwys staff addysgu a chymorth lle bo hynny'n berthnasol, gyda hyfforddiant wedi'i alinio â rolau a chyfrifoldebau. Cryfderau pwysig oedd eglurder ynghylch blaenoriaethau ysgol gyfan a symud i ffwrdd o fodel un dull i bawb, gyda darpariaeth gynlluniedig yn canolbwyntio ar gryfhau gweithio ar draws cyfadrannau a dewis sesiynau wedi'u targedu.

Ysgol Heol Goffa

Math o ysgol: Ysgol arbennig

Awdurdod lleol: Sir Gaerfyrddin

Cyfrwng iaith: Saesneg

Nifer y dysgwyr: oddeutu 132

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 48.5%

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig yn Sir Gaerfyrddin sy'n cefnogi 132 o ddysgwyr gydag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y ddarpariaeth HMS yn ei llunio gan flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ochr yn ochr â meysydd ar gyfer datblygu a nodwyd drwy brosesau hunanwerthuso a chynllun datblygu'r ysgol.

Trefnir diwrnodau HMS drwy gydol y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio cyfuniad o ddiwrnodau llawn a sesiynau gwyll. Trefnir tri diwrnod HMS llawn ar ddechrau neu ddiwedd y tymor, gyda dau ddiwrnod arall yn ystod y tymor. Mae un diwrnod HMS yn cael ei gyflwyno drwy sesiynau gwyll, yn lle diwrnod llawn ar ddiwedd tymor yr haf. Mae penderfyniadau ynglŷn ag amseru a fformat yn cael eu dylanwadu gan ofynion yr awdurdod lleol, argaeledd hyfforddwy allanol (gan gynnwys hyfforddiant Team Teach), a'r angen i gydbwysu dwyster hyfforddiant â llwyth gwaith staff. Defnyddir sesiynau gwyll i ddarparu hyfforddiant byrrach, sydd â ffocws pendant y gellir ei roi ar waith o fewn yr wythnos waith.

Roedd ffocws darpariaeth HMS yn 2024 i 25 yn cynnwys cwricwlwm ac addysgeg, asesu, strategaethau ADY, ysgrifennu CDU, cyfathrebu, ac ystod o hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig ag anghenion ieuchyd, meddygol ac ymddygiadol disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys trin cadarnhaol, codi a chario, hyfforddiant Team Teach, a gweithdrefnau ieuchyd a meddygol. Roedd llesiant hefyd yn thema graidd, a hynny mewn perthynas â staff a disgyblion. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r ddau ofyniad gorfodol ochr yn ochr â'r gofynion penodol o weithio mewn cyd-destun ysgol arbennig.

Mae darpariaeth HMS yn cynnwys athrawon, cymorthyddion addysgu, staff cymorth ac uwch-arweinwyr, gyda hyfforddiant weithiau'n cael ei ddarparu ar y cyd ar draws yr ysgol gyfan ac weithiau'n cael ei dargedu at grwpiau staff penodol, fel dechreuwyr newydd. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn HMS ar y cyd ag ysgolion arbennig eraill yn y rhanbarth ac weithiau'n cynnwys staff o ysgolion prif ffrwd lleol lle bynnag mae cynnwys yr hyfforddiant yn berthnasol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi staff i elwa o gronfa ehangach o arbenigedd a phrofiad ar draws gwahanol leoliadau arbenigol.

Tynnwyd sylw at ddwy agwedd ar y ddarpariaeth HMS fel cryfderau penodol. Mae HMS ar y cyd ag ysgolion arbennig eraill yn caniatáu rhannu cryfderau a meysydd datblygu ac yn galluogi staff i gael mynediad at hyfforddiant arbenigol ar draws gwahanol leoliadau. Yn ogystal, roedd diwrnod HMS sy'n canolbwyntio ar lesiant yn darparu strategaethau ymarferol i staff mewn perthynas â hunan-ofal a rheoleiddio, gan gynnwys dulliau fel gwaith anadlu, ioga, celf ymwybodol a gweithgarwch corfforol. Bwriad hyn oedd cefnogi llesiant, presenoldeb a gwytnwch staff, gyda manteision posibl ar gyfer sut mae staff yn ymgysylltu â disgyblion ac yn eu cefnogi.

Wrth edrych ymlaen, nododd yr ysgol yr her o ddarparu ar gyfer ehangder y gofynion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â darpariaeth ysgol arbennig, ochr yn ochr â'r cwricwlwm a datblygiad addysgeg. Mae yna farn y byddai amser HMS ychwanegol yn cefnogi cyfaint a chymhlethdod yr hyfforddiant gofynnol yn well.

Ysgol Gymunedol Tonyrefail

Math o ysgol: Ysgol pob oed

Awdurdod lleol: Rhondda Cynon Taf

Cyfrwng iaith: Saesneg

Nifer y dysgwyr: oddeutu 1,800

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 19%

Mae Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn ysgol pob oed yn Rhondda Cynon Taf sy'n gwasanaethu oddeutu 1,800 o ddysgwyr. Mae darpariaeth HMS yn cefnogi blaenoriaethau addysgu a dysgu ar draws gweithlu mawr ac amrywiol ac fe'i cynlluniwyd o amgylch cylch dysgu proffesiynol blynyddol, ochr yn ochr â gofynion hyfforddiant gorfodol a osodir gan yr awdurdod lleol.

Caiff diwrnodau HMS eu cyflwyno drwy gyfuniad o ddiwrnodau llawn a sesiynau gwyll trwy gydol y flwyddyn academaidd. Er bod y rhan fwyaf o ddiwrnodau HMS wedi'u lleoli i gefnogi cylch cydlynol o ddatblygiad proffesiynol, mae dau yn orfodol: un a bennir gan yr awdurdod lleol ac un diwrnod hyfforddiant cymwysterau cenedlaethol dan arweiniad CBAC. Defnyddir sesiynau gwyll i gefnogi adolygiadau datblygu perfformiad a phwyntiau myfyrio strwythuredig.

Roedd ffocws darpariaeth HMS yn 2024 i 2025 yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu, addysgeg, datblygu cwrwllwm, asesu, ymddygiad ac ADY. Roedd diwrnodau HMS hefyd yn cefnogi cynllunio a pharatoi ar gyfer y flwyddyn academaidd, diogelu, a dysgu proffesiynol rôl benodol ar gyfer staff cymorth nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth. Pennwyd blaenoriaethau drwy ymgynghori rhwng uwch-arweinwyr a chanolig ac mewn ymateb i anghenion datblygu staff ac anghenion datblygu ar lefel ysgol sy'n dod i'r amlwg.

Agwedd arbennig o effeithiol ar ddarpariaeth HMS oedd defnyddio ymweliadau cydweithredol ag ysgolion a sefydliadau eraill, gan gynnwys addysg bellach ac uwch a lleoliadau diwydiant. Mae'r ymweliadau hyn yn cefnogi dysgu proffesiynol a llesiant drwy alluogi staff i ganolbwyntio ar flaenoriaethau personol, tîm ac ysgol gyfan wrth ddysgu gan arferion y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain. Myfyriwyd ar effaith drwy gwestiynau adolygu strwythuredig yn canolbwyntio ar newidiadau i arferion a manteision ehangach i gydweithwyr.

Caiff y ddarpariaeth HMS ei llywio gan ddull ysgolion fel sefydliadau dysgu (SLO), sy'n cefnogi cydweithio, myfyrio proffesiynol a gwelliant parhaus. Mae gweithdai addysgu a dysgu yn dwyn ynghyd staff sy'n ymwneud â phlant mewn grwpiau cydweithredol wedi'u halinio â meysydd blaenoriaeth, gyda sesiynau yn cael eu cyflwyno'n bennaf gan ymarferwyr mewnol.

Mae cryfderau pwysig dull HMS yr ysgol yn cynnwys ei bwyslais ar gydweithio, dysgu proffesiynol pwrpasol a chyfranogiad cynhwysol ar draws grwpiau staff. Nodwyd y gallai penderfyniadau ar lefel ysgol i gyflwyno hyfforddiant diogelu a phresenoldeb diwrnod llawn ychwanegol gael goblygiadau ar gyfer yr amser sydd ar gael i ddatblygu addysgu a dysgu yn ehangach, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ymweliadau HMS cydweithredol â sefydliadau eraill.

Ysgol Gynradd Gymunedol Buttington Trewern

Math o ysgol: Ysgol Gynradd

Awdurdod lleol: Powys

Cyfrwng iaith: Saesneg

Nifer y dysgwyr: oddeutu 135

Cymhwysedd derbyn cinio ysgol am ddim: 4%

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Buttington Trewern yn ysgol gynradd fach cyfrwng Saesneg ym Mhowys sy'n gwasanaethu oddeutu 135 o ddysgwyr, lle defnyddir diwrnodau HMS i gefnogi dysgu proffesiynol a blaenoriaethau gwella ysgolion.

Mae pob un o'r 6 diwrnod HMS yn cael eu cyflwyno fel diwrnodau llawn ac yn cael eu dosbarthu ar draws y flwyddyn academaidd gyda chyfuniad o ddarpariaeth ar lefel ysgol a chlwtwr. Disgrifiodd un uwch-arweinydd ffafriaeth dros ddiwrnod llawn o HMS, gan nodi llesiant, llwyth gwaith ac effeithiolrwydd staff fel ystyriaethau pwysig. Nodwyd na theimlir bod sesiynau gwyll ar ôl diwrnod llawn o addysgu yn cefnogi dysgu proffesiynol o ansawdd dda a'u bod yn rhoi straen ychwanegol ar staff, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Mae diwrnodau HMS clwtwr yn rhan bwysig o fodel dysgu proffesiynol yr ysgol ac fel arfer fe'u dilynir gan ddiwrnod HMS yn yr ysgol i alluogi staff i gyd-destunoli ac ymgorffori dysgu. Tynnodd arweinwyr sylw at werth alinio diwrnodau HMS â hanner tymor, gan ganiatáu i flaenoriaethau gwella gael eu cynllunio, eu gweithredu a'u hadolygu mewn ffordd strwythuredig drwy gydol y flwyddyn.

Roedd ffocws darpariaeth ddiweddar HMS yn canolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig dylunio, dilyniant ac addysgeg y cwricwlwm o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh). Roedd nifer o ddiwrnodau HMS yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol, ac roedd yr HMS clwtwr yn cefnogi gweithio ar y cyd ag ysgolion cyfagos, gan gynnwys gweithgareddau cynllunio ar y cyd a rhannu arferion. Cafodd penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau eu llywio i raddau helaeth drwy drafodaethau ar lefel clwtwr mewn cydweithrediad â thîm dysgu proffesiynol yr awdurdod lleol.

Enghraifft arbennig o effeithiol o ddarpariaeth HMS oedd sesiwn a gomisiynwyd ar y cyd ar gynllunio ar gyfer dilyniant, a gyflwynwyd gan ymgynghorydd allanol ac a gynhaliwyd ar y cyd â 2 ysgol leol arall. Adroddodd arweinwyr fod hyn yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o ddilyniant ac yn cryfhau cynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau. Nododd yr ysgol hefyd effaith gadarnhaol y Cwrs Dylunio Cwricwlwm a gynhaliwyd gan 2 athro, a ystyriwyd ei fod wedi gwneud cyfraniad ystyrlon at ymarfer.

Mae darpariaeth HMS yn cynnwys athrawon, cymorthyddion addysgu ac uwch-arweinwyr, gyda'r ysgol yn defnyddio'r cyllidebau sydd ar gael a chyllid dysgu proffesiynol i gefnogi presenoldeb cymorthyddion addysgu lle bo hynny'n bosibl. Nodwyd bod HMS cynhwysol sy'n cynnwys athrawon a chymorthyddion addysgu yn gryfder, ac yn rhywbeth sy'n cefnogi dealltwriaeth a chysondeb arferion a rennir.

Wrth edrych ymlaen, nododd yr ysgol heriau ehangach i'r defnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS, gan gynnwys gofynion hyfforddiant statudol cystadleuol, cyfaint yr e-ddysgu angenrheidiol, a chapasiti staffio, gyda'r golwg y byddai mwy o gydlynw gan Llywodraeth Cymru mewn perthynas â DPP yn cefnogi defnydd mwy effeithiol o amser HMS.